PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# NEWYDDION Aber

*Aberystwyth… un o'r llefydd gorau yn y byd i fod yn fyfyriwr*

RHIFYN 18
Gorffennaf 2014



Credyd: RNLI


2 Y Siarter ac Ystatudau Diwygiedig




5 Ysbrydoli'r to nesaf o wyddonwyr



7 Gwobrau Byw'n Wyrddach



10 Seiniau'r moroedd



14 Y Gronfa Flynyddol – y galwyr a'r achosion




## Elusen Flynyddol yr Is-Ganghellor

Ar ôl wythnos o bleidleisio, gyda channoedd o bleidleisiau yn cael eu bwrw, gallwn nawr gyhoeddi mai Bad Achub Aberystwyth a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) yw Elusen Flynyddol yr Is-Ganghellor ar gyfer 2014/15.

Dyma drydedd flwyddyn apêl Elusen Flynyddol yr Is-Ganghellor a'i nod yw codi cymaint o arian â phosib i achos teilwng.

Gan fod sawl achlysur yn codi yn ystod y flwyddyn lle y gellir codi arian i elusen leol, mae Elusen Flynyddol yr Is-Ganghellor yn cynnig ffocws ar gyfer ymgyrchoedd i godi arian yn gymunedol a chasglu rhoddion elusennol. Eleni, bydd yr ymgyrch codi arian yn dechrau gyda stondin RNLI yng Nghanolfan y Celfyddydau yn ystod Wythnos y Graddio.

Mae Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) yn achub bywydau ar y moroedd. Mae gwirfoddolwyr yn darparu gwasanaeth chwilio ac achub 24-awr yng ngwledydd Prydain ac Iwerddon o 236 o orsafoedd bad achub, gan gynnwys Aberystwyth. Ar ben hyn, mae gan yr RNLI dros 1,000 o achubwyr bywydau ar dros 180 o draethau ledled y DG, yn ogystal â Thîm Achub Llifogydd arbenigol, sy'n gallu ymateb unrhyw le yn y DG ac Iwerddon pan fo llifogydd yn peryglu bywydau.

Gwahoddwyd y myfyrwyr a'r staff i gyflwyno enwebiadau ar gyfer Elusen yr Is-Ganghellor. Cwtogwyd y rhestr o enwebiadau – er bod pob un ohonynt yn deilwng - i lunio rhestr fer o naw elusen gan dîm sabothol Undeb y Myfyrwyr a Grŵp Gweithredol y Brifysgol. Yna, gwahoddwyd y staff a'r myfyrwyr i bleidleisio ar y rhestr fer, gyda channoedd o bleidleisiau yn cael eu bwrw.

Mae'r Brifysgol yn edrych ymlaen at gael gweithio gyda Bad Achub Aberystwyth a thîm yr RNLI yn ystod y flwyddyn a ddaw. Am ragor o wybodaeth am eu gwaith gweler: www.aberystwythlifeboat.org.uk.

Cyhoeddir NEWYDDION Aber gan y **Tîm Cyfathrebu, Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus**, Prifysgol Aberystwyth.

Ffon 01970 622946.
E-bost: cyfathrebu@aber.ac.uk

Bydd y rhifyn nesaf o NEWYDDION Aber ar gael ym mis **Medi 2014.**
Dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf yw **Dydd Llun 4ydd Awst**.

NEWYDDION

# Y Siarter ac Ystatudau Diwygiedig wedi eu cymeradwyo gan y Cyfrin Gyngor

Bydd 1 Awst 2014 yn cofnodi dechrau'r flwyddyn academaidd newydd, ond ar y dyddiad hwn yn ogystal mi fydd Siarter ac Ystatudau Diwygiedig y Brifysgol, sydd bellach wedi eu cymeradwyo gan y Cyfrin Gyngor, yn dod i rym.

Dyma fydd penllanw misoedd lawer o waith caled i sicrhau bod ein dogfennau llywodraethu yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol a'r arferion gorau yn y sector.

Mae'r Brifysgol ei hun wedi datblygu'n sylweddol ers i'r Siarter ac Ystatudau gael eu cymeradwyo ddiwethaf gan y Cyfrin Gyngor yng Ngorffennaf 2007. Rydym wedi manteisio ar y cyfle felly i roi trefn ar yr Ordinhadau yn ogystal, a sicrhau bod pob dim yn adlewyrchu'r arfer presennol; mae amnewid yr Ordinhad cyfredol ar y cyfadrannau ag Ordinhad newydd ar yr athrofeydd academaidd yn un o'r prif enghreifftiau.

Mae rhai o'r diwygiadau sydd i ddod wrth reswm yn fwy arwyddocaol nag eraill.

Un o'r newidiadau mwyaf amlwg fydd amnewid swyddogaethau'r Llywydd a'r Is-Lywyddion am swyddogaethau'r Canghellor a'r Dirprwy Gangellorion yn y drefn honno, yn unol â sefydliadau eraill yn y sector.

Y teitlau yn unig fydd yn newid mewn gwirionedd a bydd y dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau yn ddigon tebyg. Fodd bynnag, bydd hyn yn golygu y bydd gennym, cyn hir, Ganghellor, Dirprwy Gangellorion, Is-Ganghellor, a Dirprwy Is-Gangellorion – tipyn o gwlwm tafod!

Rydym hefyd yn manteisio ar y cyfle i gyflwyno gweithdrefnau newydd er mwyn i'r Cyngor allu penodi Cadeirydd fel swyddogaeth ar wahân i swyddogaeth y Canghellor.

Bydd gwelliannau sylweddol hefyd i'r polisïau adnoddau dynol sy'n berthnasol i'r staff. Ar hyn o bryd, mae'r gweithdrefnau disgyblu, cwyno, dileu swydd a diswyddo ar gyfer aelodau academaidd ac academaidd-berthynol o'r staff wedi'u hamlinellu yn Ystatud 9 – ond nid yw sawl agwedd arni yn cydymffurfio bellach â deddfwriaeth ac arferion da cyflogi cyfredol.



Geraint Pugh

Mae'r Brifysgol wedi cytuno, gyda chefnogaeth yr Undebau Llafur cydnabyddedig, ar gyfres o bolisïau adnoddau dynol newydd a fydd yn berthnasol i bob aelod o'r staff - academaidd neu anacademaidd – fel ei gilydd.

Mae'r polisïau adnoddau dynol newydd hyn yn gam sylweddol ymlaen, ac o 1 Awst 2014 byddant yn cael eu hymgorffori fel Ordinhadau y bydd angen penderfyniad gan y Cyngor i'w newid.

Wrth gwrs, crynodeb cyflym sydd yma o'r prif newidiadau. Mae manylion pellach ar gael ar dudalennau gwe newydd y Brifysgol sy'n ymwneud â llywodraethiant (www.aber.ac.uk/cy/governance); yno hefyd fe gyflwynir gwybodaeth am y gwahanol bwyllgorau.

**Geraint Pugh**
Ysgrifennydd y Brifysgol

## Cymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru

THE LEARNED SOCIETY OF WALES
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
CELEBRATING SCHOLARSHIP AND SERVING THE NATION
DATHLU YSGOLHEICTOD A GWASANAETHU'R GENEDL

### Etholwyd saith o Athrawon Aberystwyth yn Gymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

Y Cymrodyr presennol sy'n enwebu cymrodyr newydd i'w hethol yn aelodau o Gymdeithas Ddysgedig Cymru.

Dyma'r Cymrodyr newydd:

**Yr Athro Mark H Lee** (Athro Cyfrifiadureg)

**Yr Athro Gennady Mishuris** (Athro Modelu Mathemategol)

**Yr Athro Christopher Pollock** (Athro Emeritws Ffisioleg Cnydau a Thir Glas)

**Yr Athro Howard Thomas** (Athro Emeritws y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig)

**Yr Athro Lancelot Thomas** (Athro Emeritws Ffiseg)

**Yr Athro David Trotter** (Athro Ffrangeg)

**Yr Athro Gruffydd Aled Williams** (Athro Emeritws y Gymraeg)

Cychwynnodd Llywydd y Brifysgol, Syr Emyr Jones Parry, ar ei gyfnod yn Llywydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru ar 14 Mai 2014.

## Cymynrodd ysgoloriaethau ymchwil IBERS

Ym mis Medi 2014 bydd dau fyfyriwr o IBERS yn dechrau ar eu hastudiaethau PhD diolch i Owen Thomas Williams Price, mab hynaf ffermwr o Sir Frycheiniog a wnaeth gyfraniad sylweddol i'r diwydiant amaethyddol yn ystod ei oes.

Ganwyd Owen Price yn 1924 a bu'n astudio Economeg Amaethyddol yma yn Aberystwyth gan raddio yn 1946.

Caniataodd ysgoloriaeth ymchwil gyda'r Weinyddiaeth Amaeth iddo barhau gyda'i astudiaethau yn Rhydychen a Phrifysgol Wisconsin.

Bu'n darlithio am gyfnod mewn economeg tir yn y Sefydliad Ymchwil Economeg Amaethyddol. Wedi hynny bu'n gweithio i Imperial Chemical Industries (ICI) a'r Banc Rhyngwladol ar gyfer Ailadeiladu a Datblygu (Banc y Byd) yn Washington.

Yn dilyn ei farwolaeth ym mis Mai 2012, ewyllysiodd swm o arian i'r Brifysgol sydd yn cyllido ysgoloriaethau ymchwil PhD yn IBERS.

Yn ddau gyntaf i dderbyn cyllid o'r gronfa fydd Ilse Skujina a Rhys Jones.

Bydd Ilse yn astudio genomau adar a'u cysylltiad â hirhoedledd, gwaith sydd wedi datblygu yn sgil ei phrosiect MPhil ar eneteg y Barcud Coch yng Nghymru.

Bydd Rhys Jones yn astudio'r ymadwaith rhwng llyngyr yr iau, sy'n fater o bwys ym maes iechyd anifeiliaid sy'n cnoi cil, a llyngyr y rwmen, parasit sydd hefyd yn dod i'r amlwg mewn anifeiliaid sy'n cnoi cil.

**Erthygl goffa Owen Price** www.aber.ac.uk/cy/development/alumni/coffa/coffai-q/owen-price/

COLOFN YR IS-GANGHELLOR



# Mae'r haf wedi cyrraedd ers tro, ond mae bywyd yma yn Aber yr un mor brysur ag erioed.

Y mis diwethaf, cawsom ein hail ddiwrnod agored i'r gymuned, Mynediad am Ddim. Bu'n llwyddiant ysgubol - roedd yr haul yn tywynnu, y môr yn disgleirio, y ffynnon siocled yn llifo a Daleciaid yn rhodio'r Prom. Rydym yn amcangyfrif inni groesawu 2,000 o ymwelwyr i'r chwe lleoliad, gan gynnig dealltwriaeth wirioneddol o'r gwaith gwych a chyffrous a wneir yma.

Ac yn fwy diweddar, rydym newydd gynnal ein Diwrnod Agored mis Gorffennaf, sy'n cael ei anelu at ddarpar ymgeiswyr sy'n cynllunio'n gynnar ar gyfer blwyddyn derbyn 2015. Gwyddom mai ymweliadau yw'r ffactor pwysicaf oll wrth argyhoeddi darpar ymgeiswyr mai Aberystwyth yw'r lle iddyn nhw, ac felly mae'n fendigedig bod cynifer o ddarpar ymgeiswyr a'u teuluoedd wedi dod i'r Diwrnod Agored hwnnw, a bod ein staff a'n 'llysgenhadon myfyrwyr' wedi cadw'n driw i'r enw da sydd gennym ni am roi croeso cynnes a chyfeillgar i bawb.

Wrth i mi ysgrifennu hwn, mae'r paratoadau terfynol ar droed ar gyfer y Graddio, un o uchafbwyntiau gwirioneddol calendr y Brifysgol; rhywbeth y gall teulu Aber, y staff a'r graddedigion, ei fwynhau gyda'i gilydd. Wrth i'r 3,026 o ddarpar raddedigion edrych ymlaen at ddathlu eu llwyddiannau gyda'u cyfeillion, eu teuluoedd a'u cefnogwyr eleni, fe fydd hi hefyd yn bleser ac yn fraint inni anrhydeddu un ar ddeg o Gymrodyr newydd.

Bydd IBERS yn cynnal arddangosfa fel arfer yn y Sioe Frenhinol eleni, sy'n rhoi llwyfan i'w darpariaeth dysgu a'i harbenigedd technegol a'i hymchwil. Dau le arddangos fydd gan y Brifysgol ar Faes y Sioe - un yn y Pafiliwn Addysg, wrth ymyl S4C uwchben y prif gylch, a'r llall yn ein pabell yn y man Gofal Cefn Gwlad. Eleni mae ein presenoldeb yn y Sioe Frenhinol yn dod yn sgil ein stondin gyntaf erioed yn Sioe Aberystwyth, menter newydd a groesawyd yn lleol, ac fe fyddwn ni yno eto yn 2015.

Ac ar ôl y Sioe Frenhinol, byddwn ni yn yr Eisteddfod Genedlaethol o 1 i 9 Awst yn Llanelli. Unwaith eto bydd ein stondin yn fwrlwm o ddigwyddiadau a gweithgareddau gydol yr wythnos, ac mae'n hymwelwyr - p'un ai cysgodi rhag y glaw ynteu'r haul y byddan nhw - yn siŵr o gael croeso cynnes iawn yn ein pabell, pabell sy'n cynnig pob cyfleuster ac sydd, rwy'n hollol ffyddiog, yn cynnig yr arlwyo gorau ar y Maes!

Dydd Iau 14 Awst - diwrnod arswydus o bwysig y canlyniadau Safon A - diwrnod sydd yr un mor bwysig i ni yn y Brifysgol, wrth inni gadarnhau cynigion ac agor ein llinellau Clirio. Er bod rhai darpar fyfyrwyr yn gwneud eu trefniadau yn gynnar, mae'r amcangyfrifon yn awgrymu y gallai hyd at 20% o'r myfyrwyr a dderbynnir i brifysgolion yn 2014 fod heb wneud cais tan y Clirio. Mae hynny'n golygu bod y Clirio yn gyfle mwy arwyddocaol nag erioed, i'r myfyrwyr a'r prifysgolion fel ei gilydd. Ac erbyn hynny, bydd hi'n tynnu at fis Medi a bydd hi'n bryd i mi lunio fy ngholofn nesaf ar gyfer NEWYDDION Aber!

**Yr Athro April McMahon,** Is-Ganghellor

# Etholiadau i'r Cyngor

Cynhaliwyd dau etholiad yn ddiweddar i ethol aelodau o'r staff i'r Cyngor am dair blynedd o 1 Awst 2014.

Mae tri aelod o'r Senedd ar y Cyngor, ac mewn pleidlais a gynhaliwyd ymhlith yr aelodau hynny cafodd yr Athro Neil Glasser ei ailethol. Yn ymuno ag ef ar y Cyngor bydd Dr Joe Ironside a'r Athro David Trotter, a gafodd eu hethol gan aelodau'r Senedd hefyd.

Yn yr ail etholiad, cafodd Nigel Thomas (Gwasanaethau Gwybodaeth) ei ethol â mwyafrif clir yn aelod staff anacademaidd o'r Cyngor.

Llongyfarchiadau i'r pedwar, ond diolch hefyd i'r Athro Kate Bullen, Rachel Hubbard, a'r Athro Tim Woods a fydd yn ymadael â'r Cyngor dros yr haf.



*Nigel Thomas, a gafodd ei ethol yn aelod staff anacademaidd o'r Cyngor*

NEWYDDION



*Dathlu rhagoriaeth mewn dysgu: (Chwith i'r dde) Yr Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor; Dr Basil Wolf, IBERS; Dr Steve Atherton, yr Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes; Mary Jacob, y Tîm E-ddysgu; Dr Victoria Wright, yr Adran Seicoleg; Dr Liz Hart, IBERS; yr Athro April McMahon, Is-Ganghellor.*

# Gwobrau Cyrsiau Eithriadol

Dr Madeline Carr o'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol a Dr Victoria Wright o'r Adran Seicoleg yw cyd-enillwyr Gwobr Cyrsiau Eithriadol Prifysgol 2014.

Sefydlwyd y Gwobrau Cyrsiau Eithriadol gan Dîm E-ddysgu'r Brifysgol, sy'n cefnogi dysgu ac addysgu trwy gyfrwng technoleg. Dyfernir y gwobrau hyn yn flynyddol i anrhydeddu modiwlau sy'n dangos arfer eithriadol mewn pedwar maes: cynllun y cwrs, rhyngweithio a chydweithio, asesu a chymorth dysgu.

Dyfarnwyd y wobr i Dr Madeline Carr am safon uchel cynllun ei chwrs a gweithrediad y modiwl 'International Politics and the Cyber Dimension'.

Bu cyd-enillydd y wobr, Dr Victoria Wright, yn gweithio gyda'i chydweithwyr i ddatblygu'r modd y cyflwynir y modiwl gradd 'Introduction to Psychology' ar-lein.

Cydnabuwyd bod pob un o'r ceisiadau a dderbyniwyd gan banel adolygu'r Gwobrau Cyrsiau Eithriadol yn dangos arfer da.

Cafodd gwaith Dr Tom Holt (yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear) a Hannah Dee (yr Adran Cyfrifiadureg) ganmoliaeth uchel.

Yn ogystal, roedd canmoliaeth i waith Dr Steve Atherton (yr Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes), Dr Liz Hart (Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig), Mr Matthew Richards (yr Adran Ieithoedd Ewropeaidd) a Dr Basil Wolf (Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig).

Mae'r Tîm E-ddysgu'n gwahodd cyflwyniadau ar gyfer ail flwyddyn Gwobrau Cyrsiau Eithriadol Prifysgol Aberystwyth, erbyn 21 Tachwedd 2014 fan bellaf. Ewch i: http://nexus.aber.ac.uk/xwiki/bin/view/Main/AU+Exemplary+Course+Award i gael gwybod mwy.

# Gŵyl llyfrau blynyddol Bedwen Lyfrau

Anturiaethau amgylcheddol oedd thema digwyddiad CAA (Canolfan Astudiaethau Addysg) yng ngŵyl Bedwen Lyfrau eleni, a gynhaliwyd ar 3 Mai.

Lleolwyd y Fedwen ym mhentref hardd Nant Gwrtheyrn, ym Mhen Llŷn, a daeth dros 100 o ymwelwyr i fwynhau cyfoeth llenyddiaeth Gymraeg.

Ysbrydolwyd gweithgareddau CAA gan gyfres ddarllen boblogaidd *Nansi a Nel*, a daeth ymwelwyr o bob oedran yn gyfarwydd â dirgelion natur.

Gan ddefnyddio offer a fenthycwyd gan dîm addysg IBERS, cafodd plant ac oedolion gyfle i graffu ar flodau, mwsog, grawn a phryfed o dan y microsgop a chymryd rhan mewn cwis 'dyfalu'r grawn'.

Cafodd y plant lleiaf gyfle i droi'n dyrchod gyda'n mygydau twrch daear a chreu oriel amryliw wrth liwio delweddau *Nansi a Nel*.

Roedd yn ddiwrnod llawn hwyl a gweithgareddau diddorol ac edrychwn ymlaen at flwyddyn nesaf pan gynhelir y Fedwen yng nghymoedd y de.

# Cydnabod gwasanaeth hir

Cafodd 180 o aelodau staff eu hanrhydeddu am eu gwaith caled a'u gwasanaeth ymroddedig yng Ngwobrau Gwasanaeth Hir y Brifysgol a gynhaliwyd ddechrau mis Ebrill.

Yr aelod o staff sydd wedi gwasanaethu'r Brifysgol am y cyfnod hiraf ac a gafodd ei gydnabod yn y Gwobrau oedd Mike Gelly Jones, sy'n gweithio i'r Brifysgol ers 53 mlynedd.


Ymunodd Mike â'r Adran Ddaearyddiaeth fel Cartograffydd ym mis Hydref 1961. Ar ôl 41 mlynedd, ac yntau'n teimlo y byddai'n hoffi rhoi cynnig ar rywbeth gwahanol, fe ymddeolodd yn gynnar yn 2002, cyn dychwelyd ar ôl ychydig fisoedd i weithio fel gyrrwr y Brifysgol ac fel porthor yn adeilad Hugh Owen. Ychydig dros 11 mlynedd yn ddiweddarach, ac mae'n dal i ffynnu.

Pan nad yw'n gyrru ar gyfer y Brifysgol mae Mike yn mwynhau cerdded ei gŵn, garddio, teithio, a gyrru ei feic modur BMW GS1150. Mae newydd ddychwelyd o fordaith ar hyd Camlas Panama. Yn ystod y tair blynedd diwethaf teithiodd ar ei feic i Foroco, yr Alpau ac i Barcelona.

Mae gwraig Mike, Susan Jones, sy'n gweithio yng Nghanolfan y Celfyddydau Prifysgol Aberystwyth, hefyd wedi gwasanaethau am gyfnod hir iawn, fel y mae eu mab, Simon Jones, sy'n gweithio fel technegydd cyfrifiadur gyda'r Gwasanaethau Gwybodaeth.

Mae'r Gwobrau, sydd bellach yn eu hail flwyddyn, yn cael eu cyflwyno i staff academaidd a gwasanaethau proffesiynol sy'n gweithio i'r Brifysgol ers 20 mlynedd neu fwy.

Yn ogystal â Mike, cafodd pedwar unigolyn wobr am 40 mlynedd o wasanaeth, 25 o bobl y wobr 30 mlynedd, 22 yn cyflawni 25 mlynedd a'r 128 arall yn gweithio yn y Brifysgol ers 20 mlynedd neu fwy.



*Mike Gelly Jones, sydd wedi gwasanaethu Prifysgol Aberystwyth am bron i 53 o flynyddoedd*

NEWYDDION

# Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr

Cafodd enillwyr y Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr - a enwebwyd gan fyfyrwyr eu cyhoeddi nos Wener 2ail Mai.

Undeb y Myfyrwyr oedd yn cynnal y seremoni farweddog ym Medrus, gyda chefnogaeth y Brifysgol a rhoddwyd wyth gwobr:

- **Dr Brieg Powell** - Rhagoriaeth mewn Addysg Gymraeg
- **Dr Christian Enemark** - Aelod Staff Newydd y Flwyddyn
- **Dr Tom Holt** - Addysgu Eithriadol
- **Dr Kevin Grove** - Tiwtor Personol y Flwyddyn
- **Ms Rose Sillars** - Athro Ôl-raddedig
- **Mr Ben Holihead** - Cynrychiolydd Myfyriwr y Flwyddyn
- **Ms Ffion Hoare** - Staff Cymorth y flwyddyn
- **Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear** - Adran y Flwyddyn.

# Gweithdy Ffitrwydd Ymarferol 60+

Cynhaliwyd Gweithdy dechreuol Profi Ffitrwydd Ymarferol ym mis Ebrill drwy gydweithrediad rhwng Age Cymru Ceredigion a'r Adran Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff.

Trefnwyd y digwyddiad gan Dr Marco Arkesteijn (Yr Adran Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff) a David Langford (Cymdeithas Brydeinig y Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff) a'r amcan oedd codi ymwybyddiaeth o fanteision ymarfer a gweithgaredd corfforol i rai dros 60 oed, ac roedd yn rhoi cyfle i fyfyrwyr weithio gyda phobl hŷn ac i elwa ar y cyfleoedd i gyfathrebu â phobl o genhedlaeth wahanol.

Mynychodd pedwar ugain o bobl, yn amrywio o drigain i bymtheg a phedwar ugain oed, y gweithdy i gymryd rhan mewn asesiadau ymarferion corff ymarferol a oedd yn dyblygu tasgau beunyddiol. Roedd y diwrnod hefyd yn cynnwys mesuriadau gwyddonol cryfder a chydbwysedd gan gynnwys mesuriadau cyfansoddiad corfforol gyda'r cyfleusterau diweddaraf.

Roedd y cyflwyniadau yn cynnwys gwybodaeth am ganllawiau llywodraeth y DG ar gyfer gweithgarwch corfforol, heneiddiad cyhyrau, osteoporosis, ymchwil i iechyd cyhyr ac esgyrn ac Age Cymru Ceredigion.



*David Langford, Ymarferydd Ardystiedig gyda Chymdeithas Brydeinig y Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff yn asesu Beryl Stephens*



# Ysbrydoli'r to nesaf o wyddonwyr, a gwella sgiliau cyflogaeth ein myfyrwyr

Cafodd mwy na 1,300 o ddisgyblion 25 o ysgolion yng Ngheredigion, Powys a Gwynedd gyfle i gymryd rhan mewn ffair wyddoniaeth yn y Gawell Chwaraeon ym mis Mawrth, yn rhan o weithgareddau Wythnos Genedlaethol Gwyddoniaeth a Pheirianneg a drefnwyd gan Ganolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiant Cymdeithasol y Brifysgol.

'Archwilio'r Dyfodol' oedd y thema eleni, ac yn ogystal â grwpiau ysgolion, roedd y ffair ar agor i'r cyhoedd, mewn sesiwn gyda'r nos lle roedd mwy na 150 o bobl yn bresennol.

Dywedodd Roger Morel, Swyddog Prosiect Gwyddoniaeth: "Mae'r Ffair Wyddoniaeth yn gyfle i ddangos y gwaith gwyddonol rhagorol sy'n cael ei wneud yn y Brifysgol er mwyn ehangu gwybodaeth am wyddoniaeth ymhlith plant ysgol a dangos iddynt pa mor bwysig yw gwyddoniaeth yn ein bywydau ni i gyd."

Cafodd y rhai a oedd yno gyfle i gymryd rhan mewn ystod eang o arddangosiadau a gweithgareddau ynghyd â chyfle i gwrdd ag anifeiliaid gwyllt, deall llosgfynyddoedd, cwrdd â Doris y Dalek a K9, a llu o stondinau eraill a gynhaliwyd gan fyfyrwyr.


Dywedodd Debra Croft, Rheolwr y Ganolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiant Cymdeithasol, "Ni allem wneud hyn heb frwdfrydedd, agwedd broffesiynol a gwybodaeth yr Athrofeydd a'r Adrannau – yn staff ac yn fyfyrwyr fel ei gilydd. Roedd y sgiliau trosglwyddadwy a ddysgwyd ac a ddefnyddiwyd gan ein myfyrwyr, o flaen cynulleidfa ymholgar o bobl ifanc, yn syfrdanol ac yn arloesol.

Carwn ddiolch yn ddiffuant i'r 130 a mwy o staff a myfyrwyr a gyfrannodd o'r adrannau Mathemateg a Ffiseg, Cyfrifiadureg, Chwaraeon ac Ymarfer Corff, Seicoleg, Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, a'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, a roddodd o'u hamser a'u hegni i wneud yr achlysur yn gymaint o lwyddiant, yn ogystal â staff cynorthwyol o'r Ystadau a'r Ganolfan Chwaraeon. Hefyd hoffwn ddiolch i Gyngor Sir Ceredigion, yr RSPB, Cymdeithas Daeareg Gorllewin Cymru, Cymdeithas Frenhinol Cemeg a Chyhoeddwr Adnoddau Addysg (CAA)."

Gofynnwyd i'r rhai a ddaeth i'r arddangosfa bleidleisio dros eu hoff stondin, a dyma'r enillwyr: yn gyntaf – "Wild Encounters", yn ail - "Bubbles" Cymdeithas Frenhinol Cemeg, ac yn drydydd – "The Seashore" IBERS.

NEWYDDION

# Cynhadledd Lovelace BCSWomen



*Jolanta Mirecka, a enillodd Wobr Dewis y Bobl yn y gystadleuaeth posteri. Llun: Diana Silvia Teodorescu*

Cyrhaeddodd pump o fyfyrwyr Cyfrifiadureg Aberystwyth rownd derfynol y gystadleuaeth posteri yng Nghynhadledd Lovelace BCSWomen eleni.

Cynhadledd undydd flynyddol i fenywod sy'n astudio Cyfrifiadureg a phynciau cysylltiedig yw hon, ac fe'i cynhaliwyd eleni ar 16 Ebrill ym Mhrifysgol Reading.

Llwyddodd y pump, a gafodd ysgoloriaethau teithio a llety i fynd i'r gynhadledd, i ennill mwy o wobrau nag unrhyw Brifysgol arall yn y DG, a chyfanswm o £800.

Enillodd Katie Hobson wobr Rhagoriaeth Google i'r Fyfyrwraig Orau ar ei Blwyddyn Gyntaf, enillodd Angharad Cunningham yr ail wobr yng nghystadleuaeth y Fyfyrwraig Orau ar ei Hail Flwyddyn a noddir gan Airbus UK, ac enillodd Silvia Teodorescu a Jolanta Mirecka ill dwy Wobrau Dewis y Bobl.

Dechreuwyd Cynhadledd Lovelace BCSWomen yn 2008 gan Dr Hannah Dee, sydd bellach yn ddarlithydd yn yr Adran Cyfrifiadureg. Mae Prifysgol Aberystwyth yn cefnogi'r digwyddiad mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys rhoi cymorth ariannol, system cyflwyno'r myfyrwyr, cysylltiadau nawdd a chymorth trefniadol.

# Cynhadledd Gwasanaethau ar y cyd Cynghrair Strategol Aberystwyth-Bangor

Cynhaliwyd Cynhadledd Gwasanaethau ar y cyd ym Mhrifysgol Bangor ar 16 Ebrill, a ddaeth ag uwch reolwyr o dimau gwasanaeth Prifysgolion Aberystwyth a Bangor at ei gilydd.

Pwrpas y gynhadledd oedd darparu cyfle i greu cysylltiadau ac i ddysgu rhagor am y gwasanaethau ar y cyd rhwng y ddwy brifysgol a thrwy Gymru a'r DG, gyda'r bwriad o symbylu ystyriaeth bellach i wasanaethau ar y cyd fel opsiwn.

Daeth cynrychiolwyr i'r gynhadledd o swyddogaethau Adnoddau Dynol, y Swyddfa Gyllid, y Swyddfa Gynllunio, Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, Ystadau, Rheolaeth Cofnodion a Gwybodaeth, Gwasanaethau Gwybodaeth, y Gofrestrfa a'r Gofrestrfa Academaidd.

Roedd y cyflwyniadau yn rhoi'r pwyslais ar weithio ar y cyd fel erfyn allweddol i wella ansawdd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd darpariaeth gwasanaeth; ar roi ystyriaeth genedlaethol i agenda'r gwasanaethau ar y cyd rhwng y sefydliadau hyd yma, gan gynnwys datblygiad prosesau cyffredin, rhannu ymarfer da ac arbenigedd, gan gefnogi'r naill y llall wrth weithredu systemau a chaffael newydd yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer gwaith cydweithrediadol pellach.

Cyflwynwyd enghreifftiau o ymarfer da wrth ddarparu gwasanaeth gan gynrychiolwyr y ddwy brifysgol ym meysydd adnoddau dynol, addysgu trwy gyfrwng technoleg a datblygu polisi.

Roedd yr adborth o'r gynhadledd yn gadarnhaol, gyda'r rhai a fynychodd yn gwerthfawrogi'n arbennig y cyfle i ddod i adnabod cydweithwyr yn y Brifysgol arall yn well, ac mae'n debygol yn barod y bydd meysydd newydd o ddarparu gwasanaethau ar y cyd yn deillio'n uniongyrchol o ganlyniad i'r digwyddiad.

# Seiclwyr yn heidio i Aberystwyth i ŵyl 2014

Denodd Gŵyl Seiclo Aber 2014 a gynhaliwyd o 23 hyd y 25 o Fai, gannoedd o seiclwyr gan gynnwys enillwyr medalau aur Olympaidd a Phencampwyr Byd o bob rhan o'r DG i gymryd rhan.

Mae'r digwyddiad a drefnwyd gan Brifysgol Aberystwyth a gwirfoddolwyr lleol, wedi sicrhau bod enw da'r ŵyl fel dathliad diogel a chyfeillgar o seiclo yn parhau.

Cymerwyd rhan gan ragor na mil o seiclwyr yn ystod y tri diwrnod, gyda 500 yn rasio 'O Gylch y Tai' ar y dydd Gwener, 100 yn 'Curo'r Clogwyn' ar Graig-glais ar y Sadwrn, a 450 yn mwynhau hwyl seiclo Gorllewin Gwyllt Cymru a oedd yn cael eu cynnal o fewn i ffiniau sirol Ceredigion.

Gyda 100 arall yn mynychu'r noson Gala ar y nos Iau a oedd wedi gwerthu allan yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, mae'r Ŵyl yn dal i dyfu a'r amcan yw creu dathliad seiclo a fydd yn para am wythnos mewn blynyddoedd sydd i ddod.

Tîm Prifysgol Aberystwyth oedd yn fuddugol yn ras 'Baravin' y Dref yn erbyn y Coleg, gyda Darren Hathaway o Ganolfan Chwaraeon y Brifysgol yn ennill, gyda chymorth Wyn Morris a Matt Birkett.




*© Larry Hickmott / Tour Series*

NEWYDDION

# Gwobrau Byw'n Wyrddach

Roedd mentrau i annog cydweithwyr i ddefnyddio styffylwyr heb styffylau, ymarfer corff yn rheolaidd trwy gerdded o amgylch y campws ac ymuno â chynllun bocs llysiau organig ymhlith y syniadau a gafodd eu cydnabod yng Ngwobrau Byw'n Wyrddach Prifysgol Aberystwyth eleni a gynhaliwyd ar Ddydd Llun 19 Mai.




*Aelodau o'r Cynllun Mawr (Chwith i'r Dde) Clover Winton-Polak, Geraint Pugh, Sarah Taylor, Helen Wyn Davies a Nerys Roberts, yn derbyn eu Safon Aur*

Cyflwynwyd Gwobr Aur i dîm 'Cynllun Mawr' y Swyddfa Gynllunio a Llywodraethiant am eu gwaith. Datblygwyd cynllun gan aelodau'r tîm, sef Clover Winton-Polak, Geraint Pugh, Sarah Taylor, Helen Wyn Davies a Nerys Roberts, a oedd yn cynnwys styffylwr heb styffylau, cerdded o amgylch y campws yn rheolaidd, tŷ pryfed i annog buchod bach cwta, a mabwysiadu Ystafell Bwrdd y Brifysgol er mwyn gwneud yn siŵr fod y gwres a'r golau wedi'u diffodd pan nad oedd yr ystafell yn cael ei defnyddio.

Cyflwynwyd Gwobr Arian i'r tîm Gwasanaethau Gwybodaeth am eu cynllun bocs llysiau organig, a ddatblygwyd gan Lauren Harvey, Geoff Constable, Christiane Kloos a Sue Ferguson.

Ymgeisiodd tri thîm ar ddeg yn cynnwys mwy na 70 o aelodau staff y Brifysgol ar gyfer y gystadleuaeth eleni; seiliwyd y gystadleuaeth ar Gynllun Gwobrau Byw'n Wyrddach Urdd Cenedlaethol y Myfyrwyr.

Cydnabuwyd yn ogystal gyfraniadau eithriadol gan bedwar aelod o staff, Sarah Taylor (Swyddfa Gynllunio a Llywodraethiant), Lewis Richards (Athrofa Addysg, Datblygu Proffesiynol a Graddedigion, Llandinam), Clover Winton-Polack (Swyddfa Gynllunio a Llywodraethiant), a Kristiane Kloos (Gwasanaethau Gwybodaeth), gan gyflwyno Gwobrau Arwyr Amgylcheddol iddyn nhw.

Cyflwynwyd y cynllun ym mis Medi 2013 gan Adran Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd y Brifysgol, a'r nod yw codi ymwybyddiaeth o fentrau gwyrdd a hyrwyddo amgylchedd gwaith gwyrddach.

Gweithiodd pob un o ymgeiswyr eleni drwy restr helaeth o feini prawf er mwyn derbyn achrediad efydd, arian neu aur, ac fe wnaeth y tri ar ddeg gyrraedd safon efydd.

Cyflwynwyd y Gwobrau gan Phil Madison, Cyfarwyddwr yr Adran Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd. "Yn gyntaf, llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n rhan o Wobrau Byw'n Wyrddach eleni. Bu'n wych gweld yr amrywiaeth eang o brosiectau a ddaeth i'r brig, yn amrywio rhwng hybu trafnidiaeth gyhoeddus a defnyddio papur wedi ei ailgylchu mewn peiriannau llungopïo ac argraffwyr.

"Mae'n wych gallu dweud bod pob un o'r timau wedi cyrraedd lefel achredu efydd, ac mae'n arbennig o dda fod rhai timau wedi cyflawni mwy na gofynion syml y cynllun, gan ennill gwobrau 'arwr amgylcheddol' ychwanegol."

Os hoffech ymuno â'r cynllun bocs llysiau organig a drefnir gan y Gwasanaethau Gwybodaeth, cysylltwch â Geoff Constable, geoff.constable@aber.ac.uk.

**Dyma restr lawn y timau a gymerodd ran yng Ngwobrau Byw'n Wyrddach eleni:**

**Aur:** Cynllun Mawr (Swyddfa Gynllunio a Llywodraethiant)

**Arian:** Gwasanaethau Gwybodaeth

**Efydd:** Chwaraeon Aber; Daearyddiaeth; Athrofa Addysg, Datblygu Proffesiynol a Graddedigion, Cledwyn; Athrofa Addysg, Datblygu Proffesiynol a Graddedigion, Llandinam; Athrofa Llenyddiaeth, Ieithoedd a'r Celfyddydau Creadigol, Hugh Owen; Athrofa Llenyddiaeth, Ieithoedd a'r Celfyddydau Creadigol, Yr Ysgol Gelf; Gwleidyddiaeth Ryngwladol; Milford; Seicoleg; Stapledon; Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.

I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun, ewch i www.green-impact.org.uk.




*Aelodau o dîm Gwasanaethau Gwybodaeth (O'r Dde i'r Chwith), Sarah Ferguson, Christianne Kloos, Geoff Constable a Lauren Harvey, gyda Chyfarwydwr GG Tim Davies*



*Enillwyr Gwobrau Byw'n Wyrddach*

YMCHWIL, BUSNES AC ARLOESI

## Adnoddau Dynol i fusnesau modern

Rhoddodd Fiona Roberts, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Volkswagen Group UK Cyf, gyflwyniad a gafodd groeso brwd ac a roddodd ddigon o ddeunydd i gnoi cil arno yn nigwyddiad Rhwydwaith Busnes Prifysgol Aberystwyth a gynhaliwyd gyda'r hwyr ar 19 Mai.

Mae fformat newydd i'r Ŵyl Fusnes ar gyfer haf 2014, a rhoddodd gyfle i bobl ar draws y Brifysgol ac o sefydliadau allanol i rwydweithio. Ymhlith y stondinau roedd Cyllid Cymru; Rhaglen Arloesi ar gyfer Busnes (Llywodraeth Cymru) a Ffederasiwn y Busnesau Bach.

Yn rhan o'i hymweliad â'r Brifysgol, cyfarfu Fiona â grwpiau o fyfyrwyr i sôn am sut beth yw gweithio i Volkswagen Group a'r rhinweddau y mae'r busnes yn chwilio amdanynt pan fydd yn cyflogi graddedigion.

Ceir rhagor o wybodaeth am Rwydwaith Busnes Prifysgol Aberystwyth yn: www.aber.ac.uk/network



*Fiona Roberts, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, VW Group UK Cyf a'r Athro April McMahon, Is-Ganghellor*

## Myfyrwraig Aber yn cipio gwobr KESS


Llongyfarchiadau i Ally Evans, myfyrwraig uwchraddedig yn IBERS, a enillodd wobr am y cyflwyniad ymchwil gorau yn noson wobrau flynyddol KESS (Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth) a gynhaliwyd yn Aberystwyth ar 14 Mai.

Yn cystadlu yn erbyn ysgolheigion KESS eraill o bob cwr o Gymru, cymerodd y myfyrwyr ran mewn her i roi cyflwyniad, mewn 3 munud, ynghylch y prosiectau ymchwil y maent yn eu cynnal sy'n gysylltiedig â byd diwydiant.

Roedd y gwesteion yn y digwyddiad yn cynnwys myfyrwyr, academyddion a chynrychiolwyr cwmnïau sy'n ymwneud â phrosiectau ymchwil cydweithredol drwy'r rhaglen KESS.

Mae crynodeb o waith ymchwil Ally, sy'n canolbwyntio ar "Strwythurau Amddiffyn yr Arfordir fel Cynefinoedd yn lle Glannau Creigiog Naturiol", i'w gael ar wefan KESS yn: bit.ly/1qtUx0U.

Ar ôl y digwyddiad, dywedodd Ally: "Roedd hi'n wirioneddol wych cael cyfle i hyrwyddo ein hymchwil i lond ystafell o bobl o'r byd academaidd a byd diwydiant. Rydw i wrth fy modd bod ein gwaith ni wedi dod i'r brig o blith yr holl waith ymchwil gwych sydd ar droed yng Nghymru. Rwy'n gobeithio y bydd y wobr yn codi proffil ein gwaith ymysg y bobl hynny sy'n ymwneud â rheoli cadwraeth forol ac yn eu hannog i fabwysiadu ein canfyddiadau yng nghyswllt datblygiadau ym maes amddiffyn yr arfordir yn y dyfodol."



*Ally Evans yn derbyn y wobr oddi wrth Gary Reed, Cyfarwyddwr Ymchwil, Busnes ac Arloesi Prifysgol Aberystwyth*

*Mae'r prosiect KESS yn rhoi cyfle i fyfyrwyr, academyddion a chwmnïau i gydweithio ar brosiect ymchwil sydd wedi'i deilwra at anghenion y cwmni. Menter sgiliau uwch i Gymru gyfan yw Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS) dan arweiniad Prifysgol Bangor ar ran y sector Addysg Uwch yng Nghymru. Fe'i hariennir yn rhannol gan raglen gydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop Llywodraeth Cymru ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.*

## Y diweddaraf am fynediad agored: polisi 'REF 2020'

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE) wedi rhyddhau manylion ei bolisi mynediad agored o ran cynnyrch sy'n gymwys i'w asesu yn REF2020 (bit.ly/1pHNJgV).

Mae'r polisi'n datgan bod yn rhaid i fersiynau drafft sydd wedi'u derbyn a'u hadolygu gan gymheiriaid o erthyglau ar gyfer cyfnodolion a thrafodion cynadleddau, a gyflwynir i'w hasesu i REF2020 ac a dderbynnir i'w cyhoeddi ar ôl 1 Ebrill 2016, fod wedi'u hadneuo mewn storfa sefydliadol neu adrannol ar ôl eu derbyn i'w cyhoeddi.

Mae'r polisi'n cydnabod y gall cyhoeddwyr osod gwaharddiadau ar fynediad i gynnyrch ond mae'n nodi mai'r disgwyl yw na ddylai'r cyfnodau hynny fod yn hwy na 12 mis yn y pynciau STEM a 24 mis ym mhynciau'r Gwyddorau Cymdeithasol a'r Dyniaethau a'r Celfyddydau.

Disgwylir cydymffurfiaeth lawn â'r polisi hwn ond nodwyd cyfres o eithriadau posib yn y polisi sy'n rhesymau dilys pam na all y cynnyrch fod ar gael drwy'r llwybr mynediad agored a bennwyd.

Mae'r Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi'n bwriadu cynnig sesiynau gwybodaeth i staff ar bob agwedd ar fynediad agored, gan gynnwys manylion y polisi newydd hwn yn y dyfodol agos.

YMCHWIL, BUSNES AC ARLOESI

# Gwireddu syniadau busnes

Mae syniad gwych am gynnyrch neu wasanaeth yn hollbwysig, ond mae troi'r syniad hwnnw'n fenter busnes lwyddiannus yn golygu wynebu llawer cyfle a her ar hyd y daith. Dyna un wers a ddysgodd y rhai a ddaeth i'r Wythnos Cychwyn Busnes eleni.

Roedd Wythnos Cychwyn Busnes 2014 yn canolbwyntio ar y materion allweddol sy'n wynebu busnesau newydd, ac yn cynnig ysbrydoliaeth a phrofiad uniongyrchol gan entrepreneuriaid busnes llwyddiannus, yn ogystal â chynnig cyngor ymarferol a chyfleoedd i rwydweithio.

Bu cyflwynwyr gwadd yn sôn am uchafbwyntiau ac isafbwyntiau cychwyn busnes a manteision bod yn fòs arnoch chi eich hun.

Roedd rhaglen yr wythnos yn cynnwys un ar ddeg o weithdai'n canolbwyntio ar hyfforddiant sgiliau busnes sylfaenol gan gynnwys: sut i reoli eich busnes eich hun; ymchwil i'r farchnad, marchnata a marchnata digidol; prisio a chostio; cynllunio a rheoli ariannol, ac eiddo deallusol.

Daeth mwy na phymtheg ar hugain o bobl i gymryd rhan yn y digwyddiad blynyddol hwn a gynhaliwyd ar y campws rhwng 2-6 Mehefin, ac a drefnwyd gan yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi ar y cyd ag Antur Teifi a Menter a Busnes.

I gael gwybod mwy am ddigwyddiadau menter sydd yn yr arfaeth ac sy'n agored i fyfyrwyr, staff a graddedigion, ewch i www.aber.ac.uk/crisalis, neu www.facebook.com/AberUni.Enterprise.



*Wythnos Cychwyn Busnes 2014*

# 'Florence Taylor' yn cipio gwobr £20,000

Lucy-Jane Newman yw enillydd GwobrCaisDyfeisio 2014, sef fersiwn Prifysgol Aberystwyth o Dragon's Den, sy'n werth £20,000 i'r enillydd.

Roedd Lucy, sydd yn ei blwyddyn olaf yn yr Ysgol Rheolaeth a Busnes, ymhlith y pump a gyrhaeddodd y rownd derfynol ac a gyflwynodd eu cynlluniau busnes i banel o arbenigwyr.

Roedd y panel yn uchel ei glod i'r syniad buddugol, 'Florence Taylor' – menter i weithgynhyrchu a gwerthu offer harddwch wedi eu gwneud â llaw ym Mhrydain.

Wedi'r cyhoeddiad, dywedodd Lucy; "Rwy'n gweithio'n ddiflino ar y syniad busnes hwn ers dwy flynedd. Gan fod y farchnad swyddi i raddedigion yn fwy cystadleuol nag erioed o'r blaen, mae ennill GwobrCaisDyfeisio yn eithriadol o werthfawr. Bydd yn fy ngalluogi i greu fy swydd fy hunan drwy lansio Florence Taylor fel menter lawn amser ar ôl imi raddio ym mis Gorffennaf."

Dywedodd Cadeirydd y Beirniaid, yr Athro Donald Davies, un o sefydlwyr ML Laboratories Plc ac un o gyn fyfyrwyr Aberystwyth: "Llongyfarchiadau gwresog i Lucy-Jane Newman ar ennill GwobrCaisDyfeisio 2014. Roedd y panel yn llawn edmygedd i nifer ac ystod y ceisiadau ac roedd yn dasg anodd iawn dewis y rhai i wneud cyflwyniad. Roedd sawl cynnig arloesol, ac ym marn y panel roedd gan lawer y potensial i ddatblygu'n fusnesau llwyddiannus."

Cystadleuaeth yw GwobrCaisDyfeisio i gyflwyno syniadau busnes gwreiddiol myfyrwyr a'r bwriad yw rhoi cefnogaeth hanfodol a chymorth ariannol i egin syniad busnes sydd â'r potensial i serennu ym marn panel o gyn fyfyrwyr llwyddiannus.

Mae mwy o wybodaeth am y gystadleuaeth, gan gynnwys manylion pawb a gyrhaeddodd y rownd derfynol ac a gyflwynodd eu syniadau i'r Dreigiau, ar gael yn: www.aber.ac.uk/inventerprize

*Drwy weithio ar y cyd â Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni, trefnir GwobrCaisDyfeisio gan yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi, gyda chefnogaeth rhoddion gan gyn fyfyrwyr drwy Gronfa Flynyddol 2013/4.*



*Lucy-Jane Newman gyda Chadeirydd y beirniaid, yr Athro Donald Davies*

# Fforwm Datblygu Busnes

Cyfarfod rheolaidd newydd yw'r Fforwm Datblygu Busnes, a drefnir gan yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi i staff cynorthwyol y Brifysgol sy'n ymdrin yn uniongyrchol â byd diwydiant. Ceir cyfle yn y sesiynau i rwydweithio â chydweithwyr ledled y Brifysgol mewn amgylchedd cyfeillgar, a thrafod themâu sy'n uniongyrchol berthnasol i feithrin cyswllt â chwmnïau a thrydydd partïon eraill. I gael gwybod mwy, cysylltwch â Dr Rhian Hayward rih@aber.ac.uk

ERTHYGL NODWEDD




Darlithydd mewn daearyddiaeth ddynol yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yw Dr Kimberley Peters. Dros y bum mlynedd ddiwethaf, mae ei hymchwil wedi canolbwyntio ar y ffenomen radio herwol a'i harwyddocâd i gymdeithas ym Mhrydain.

# Seiniau'r moroedd:

## ymchwilio i diriogaeth a gwleidyddiaeth mewn darlledu radio morol

Eleni yw hanner canmlwyddiant radio herwol forol, gyda Radio Caroline yn ymddangos ar yr awyr (ac ar y môr) am y tro cyntaf ar 28 Mawrth 1964.

Radio Caroline oedd yr orsaf radio gyntaf i'w lleoli ar long gan ddarlledu rhaglenni i gynulleidfa ar draws Prydain. Ond pam gosod yr orsaf ar long, ac ar y môr? A pham ydym ni'n parhau i ddathlu'r gorsafoedd radio herwol ar y môr hyd heddiw?

Erbyn hyn gallwn wrando ar ddetholiad eang o raglenni cerddoriaeth, sgwrsio, newyddion a chwaraeon ar y radio neu ar-lein, ond ar un adeg roedd dewisiadau gwrando'n gyfyngedig iawn.

Ym 1964 pan ddechreuodd Radio Caroline ddarlledu, roedd polisi cyfyngol iawn gan Brydain ym maes darlledu.

Pan ymddangosodd radio am y tro cyntaf fel cyfrwng cyfathrebu eang ar droad yr ugeinfed ganrif, roedd llywodraethau'n bryderus am y pŵer y gallai'r dechnoleg newydd hon ei harneisio. O ganlyniad, drwy Siarter Brenhinol penderfynwyd mai un gorfforaeth yn unig, yn gweithio er budd y cyhoedd, fyddai'n cael caniatâd i ddarlledu. Y gorfforaeth honno oedd y BBC.

Tan 1964, roedd gan y BBC fonopoli ar ddarlledu ym Mhrydain, gyda thair gorsaf radio, sef y rhaglenni 'Light', 'Third' a 'Home'.

Fodd bynnag, gyda nifer o newidiadau cymdeithasol ac economaidd, roedd y boblogaeth yn galw am newid. Ymhellach, roedd toreth o gerddoriaeth newydd yn ymddangos a gafodd effaith fawr ar y wlad: y Beatles, y Rolling Stones, The Kinks, a Dusty Springfield. Ond oherwydd polisïau cyfyngol y BBC doedd dim modd chwarae llawer o'r gerddoriaeth hon, ar wahân i un slot Pick of the Pops ar yr orsaf 'Light'.

Aeth gorsafoedd herwol fel Radio Caroline ati i lenwi'r bwlch hwn o ran darlledu.

Oherwydd mai'r BBC yn unig oedd â hawl i ddarlledu drwy'r wlad, roedd rhaid i Radio Caroline ddod o hyd i ffordd i lenwi'r bwlch a chwarae cerddoriaeth bop yn ddi-baid i gynulleidfa ifanc, 'hip'.

Drwy leoli'r orsaf ar long, ar y môr, y tu hwnt i ffiniau tiriogaeth Prydain, byddai hi hefyd y tu hwnt i'r cyfyngiadau ar ddarlledu. Ond, yn hanfodol, byddai'n dal i allu cyrraedd gwrandawyr ar y tir drwy rym darlledu ar y donfedd ganol. Felly, gallai gorsafoedd ddarlledu heb dorri unrhyw reoliadau.

Er gwaethaf y ffaith eu bod yn gyfreithlon, yn fuan rhoddwyd yr enw gorsafoedd 'herwol' ar Radio Caroline a'i thebyg; oherwydd eu safle ar y môr a'u gwrthwynebiad i'r hinsawdd darlledu ym Mhrydain.

Roedd dwy orsaf gan Radio Caroline – Caroline 'South' oedd enw un (yn darlledu o Fôr y Gogledd i dde ddwyrain Lloegr) ac enw'r llall oedd Caroline 'North' (yn darlledu o Fôr Iwerddon i ogledd Lloegr, Iwerddon, Ynys Manaw a Chymru).

Roedd yr orsaf yn llwyddiant ysgubol a dilynodd nifer o 'herwyr' eraill yn ôl ei thraed yn fuan. Erbyn diwedd y chwedegau, roedd dros 14 o orsafoedd radio ar longau neu mewn caerau.

Am y tro cyntaf roedd gan wrandawyr ddewis gwirioneddol o ran gwrando. Roedd y gorsafoedd hyn yn chwyldro mewn darlledu, a hefyd o ran yr arddull darlledu, gyda sioeau poblogaidd, DJs, a chystadlaethau.

Serch hynny, cymharol fyrhoedlog oedd y gorsafoedd.

Er mai dim ond darlledu cerddoriaeth a sgyrsiau i'w cynulleidfa oedden nhw, roedden nhw'n gwneud hyn yn answyddogol, heb drwyddedau a thu hwnt i reolaeth Prydain.

O ganlyniad, ar diwedd y chwedegau aeth y llywodraeth Lafur ati i osod deddfwriaeth i gau'r gorsafoedd. Daeth hyn i rym ym mis Awst 1967 a chaeodd y mwyafrif o'r gorsafoedd ar unwaith.

Ond yn ddiddorol parhaodd Radio Caroline i ddarlledu er gwaethaf y ddeddf hon. Dim ond yr elfennau hynny o radio herwol oedd o fewn tiriogaeth Prydain (fel hysbysebu neu gyflenwi) yr oedd modd i'r gyfraith eu rheoli – doedd dim modd atal gorsafoedd rhag darlledu ar y môr, oherwydd doedd dim darpariaeth yng Nghyfraith y Môr i atal darllediadau gorsafoedd radio o longau neu gaerau.

Parhaodd Radio Caroline i ddarlledu tan 1990, pan gafwyd diwygiad i'r Ddeddf Darlledu, a ddaeth â'r orsaf i ben yn llwyr.

Yn wyneb y fath ddylanwad hir a sylweddol, yn aml gorsafoedd herwol y chwedegau sy'n cael y clod am ffurfio arddull radio fel y mae erbyn heddiw. Ac felly, hanner canrif yn ddiweddarach, rydym ni'n parhau i ddathlu ymddangosiad y gorsafoedd hyn hyd heddiw.

Felly, y tro nesaf y byddwch chi'n gwrando ar y radio – yn y car, yn y gwaith neu gartref – mae'n werth cofio cyfraniad y DJs a wnaeth hyn yn bosibl.

NEWYDDION Y MYFYRWYR

# Undeb y Myfyrwyr: Grym i'r Myfyrwyr



Pleser o'r mwyaf yw cael ysgrifennu'r erthygl hon a minnau'n Llywydd newydd Undeb y Myfyrwyr.

Ers dod yma yn 2011, rwyf wedi ymdrochi'n llwyr yn y gymuned ac ym mywyd y myfyrwyr yma yn Aberystwyth. Rwy'n edrych ymlaen at gydweithio â Swyddogion gwych dros y flwyddyn nesaf i gyflawni addewidion ac ymrwymiadau.

O wella hygyrchedd a democratiaeth, gallwn gynnig cymaint yn fwy i'n myfyrwyr. Byddwn yn taflu rhwyd Undeb Myfyrwyr Aberystwyth hyd yn oed ymhellach ac yn ymdrechu i gynrychioli lleisiau pob un o'n myfyrwyr. Bydd y flwyddyn sydd i ddod yn un heriol ond gwerth chweil i'r Undeb, ac rydym am i'n myfyrwyr fod wrth galon hynny.

Mae'n ddyletswydd ar Undeb y Myfyrwyr i ddarparu gwybodaeth ac i ganiatáu dadlau teg cyn etholiadau – a dyna pam y byddwn yn cydweithio'n agos â'r myfyrwyr wrth baratoi at Etholiad Cyffredinol 2015.

Rydym hefyd yn edrych ymlaen at gryfhau ein perthynas â'r Brifysgol a'r gymuned ehangach yma yn Aberystwyth a thu hwnt. Bydd prosiectau cyffrous ar y gweill ym mis Medi.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno tîm Swyddogion y Myfyrwyr ar gyfer 2014/15:

**Harriet O'Shea** yw ein Swyddog Gweithgareddau. Mae Harriet yn hanu o Wlad yr Haf, ac astudiodd Gadwraeth Cefn Gwlad. Bydd Harriet yn gweithio i greu cyfleoedd i'r myfyrwyr gymryd rhan mewn chwaraeon, cymdeithasau a gwirfoddoli.

Mae **Grace Burton** yn dychwelyd am yr eildro fel Swyddog Addysg. Mae Grace yn hanu o Hampshire, ac astudiodd Wleidyddiaeth Ryngwladol. Grace fydd yn cynrychioli'r myfyrwyr ar faterion yn ymwneud ag addysg ac yn gweithio gyda chynrychiolwyr yr Athrofeydd.

**Will Atkinson** sydd wedi ei ethol yn Swyddog Lles. Mae Will yn hanu o Ddyffrynnoedd Swydd Efrog, ac astudiodd Daearyddiaeth Ffisegol. Bydd gwaith Will yn canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth lles i'r myfyrwyr, mewn meysydd fel darpariaeth iechyd meddwl, tai'r myfyrwyr, a sicrhau bod cymorth ar gael yn rhwyddach.

**Miriam Williams** yw ein Swyddog Materion Cymreig a Llywydd UMCA. Mae Miriam yn hanu o Drefor yng Ngwynedd, ac astudiodd Wleidyddiaeth Ryngwladol. Mae ei dyletswyddau'n cynnwys cynrychioli'r myfyrwyr Cymraeg a threfnu digwyddiadau i'r gymuned Gymraeg.

**Jacob Dafydd Ellis -** Llywydd Undeb Myfyrwyr Aberystwyth



*O'r chwith i'r dde: Will Atkinson, Miriam Williams, Jacob Ellis, Grace Burton, Harriet O'Shea*

NEWYDDION CYNADLEDDAU


# Google yn noddi cynhadledd ar sensoriaeth y rhyngrwyd



Dr Uta Kohl

Bydd cynrychiolwyr Google, Microsoft, y Comisiwn Ewropeaidd, UNESCO ac academyddion o ddwy ochr mor Iwerydd ymhlith y cynadleddwyr mewn cynhadledd ryngwladol ar sensoriaeth y rhyngrwyd a gynhelir yn Aberystwyth ar 10-11 Medi 2014.

O dan yr enw 'Cynhadledd ar Awdurdodaeth y Rhyngrwyd: Cyfraith Genedlaethol yn erbyn Cyfathrebu Ar-lein Byd-eang - Ail-Negodi Westffalia?', trefnir y gynhadledd gan adrannau Cyfraith a Throseddeg, a Gwleidyddiaeth Ryngwladol.




Google Inc sy'n noddi'r digwyddiad a fydd yn dod ag academyddion at ei gilydd o ddisgyblaethau megis y gyfraith, gwleidyddiaeth, astudiaethau'r cyfryngau a daearyddiaeth ddynol, yn ogystal â chynrychiolwyr o fyd diwydiant, llywodraethau a chyrff anllywodraethol.

Bydd yn ystyried y gwrthdaro sy'n gwaethygu rhwng cyfraith genedlaethol a sofraniaeth wladwriaethol ar y naill law, a chyfathrebu ar-lein byd-eang ar y llaw arall.

Yn ôl trefnwyr y gynhadledd, mae'r byd dan berygl o fynd i sefyllfa lle y gallai'r rhyngrwyd gael ei gweddnewid a datblygu'n endid a holltir yn diriogaethol, sef nifer o rwydweithiau cenedlaethol a rhanbarthol a fydd ar wahân ond eto yn gorgyffwrdd â'i gilydd hefyd.

Maent yn dadlau bod hyd yn oed arweinwyr Ewropeaidd yn ystyried posibiliadau rhwydwaith cyfathrebu Ewropeaidd yn unig, yn hynod debyg i ddull Tsieina o lywodraethu'r rhyngrwyd. Mae'r model Westffalaidd o sofraniaeth y wladwriaeth yn cryfhau - ond a allwn fod ar ein colled drwy hynny, a beth yw'r dewisiadau amgenach?

Dywedodd un o drefnwyr y gynhadledd, y Dr Uta Kohl; "Rydym yn gwybod ers tro fod Tsieina yn sensora'r we yn llym. Yn fwy diweddar, daeth hysbyslun gwrth-Islamaidd y ffilm *'The Innocence of Muslims'* i'r amlwg wrth i YouTube benderfynu ei wahardd 'yn wirfoddol' yn yr Aifft a Libya ac yna mewn gwledydd eraill lle'r oedd y fideo'n gwrthdaro â chyfreithiau lleol. Y newyddion diweddaraf o'r wasg yw bod Llys Cyfansoddiadol Twrci wedi penderfynu bod y gwaharddiad cyffredinol ar YouTube yn Nhwrci yn anghyfansoddiadol.

"Prin fod sensora o'r fath yn peri syndod i ni heddiw, ond yr hyn sy'n llai amlwg i ddefnyddwyr cyffredin y rhyngrwyd ac i ddarllenwyr papurau newydd yw bod sensora ar-lein bellach yn digwydd yn fwyfwy i bobl Ewrop er gwaethaf ein traddodiad hir o ddemocratiaeth a rhyddid mynegiant.

"Mae'r gynhadledd hon yn awyddus i hyrwyddo'r ddadl academaidd hirsefydlog ond diffrwyth ar awdurdodaeth y rhyngrwyd drwy arddel dull amlddisgyblaethol o drafod y pwnc, gan fynd y tu hwnt i ffiniau arferol y dadansoddiadau cyfreithiol.

"Yn hytrach na chanolbwyntio ar reolau a fframweithiau penodol awdurdodaeth (sydd i gyd yn ddibynnol ar barhad cyfreithiau cenedlaethol effeithiol yn y cyd-destun byd-eang, sef yr union fater sy'n bwnc llosg), bydd trafodaeth y gynhadledd hon yn cychwyn o'r gosodiad bod cyfraith genedlaethol effeithiol a chyfathrebu rhyngwladol dilyffethair yn anghyson â'i gilydd a bod unrhyw 'gyfaddawdu' yn mynd i fod yn gyfaddawd a fydd ar draul cyfreithiau neu werthoedd cenedlaethol penodol ar y naill law, neu gyfathrebu rhyngwladol rhydd ar y llall, neu yn wir ar draul y ddau: chewch chi ddim cadw'r dorth a'i bwyta hi.

"Wrth dderbyn y sefyllfa honno, bydd hi'n bosib gwreiddio'r ddadl mewn gwerthoedd cyfreithiol a gwleidyddol uwch, megis rhyddid mynegiant, llywodraethu democrataidd a diogelu hunaniaethau ac amrywiaeth diwylliannol, ac i ystyried posibiliadau hyrwyddo'r gwerthoedd hynny drwy ail-negodi dulliau o lywodraethu."

Ceir manylion llawn y gynhadledd ar y we yn www.aber.ac.uk/en/internet-jurisdiction/.

## Cystadleuaeth traethawd myfyrwyr: gwobr £1000

Mae trefnwyr y gynhadledd yn cynnal cystadleuaeth traethawd i fyfyrwyr, gyda £1000 o wobr a phecyn llawn i ddod i'r gynhadledd gan gynnwys teithio, llety a chyfle i'r enillydd gymryd rhan.

Gwahoddir traethodau rhwng 2000 a 3000 o eiriau, yn ymdrin â'r cwestiwn: "Oes rhaid inni dderbyn y bydd y rhyngrwyd yn ymwahanu llawer mwy i wahanol diriogaethau lle y bydd Gwladwriaethau neu ranbarthau yn codi seibr-ffiniau i geisio cynnal eu gwerthoedd diwylliannol, gwleidyddol neu gyfreithiol eu hunain, yn ogystal â diogelu buddiannau economaidd cenedlaethol? Hynny yw, i ba raddau y mae dyfodol y rhyngrwyd yn datblygu i sefyllfa lle yr amlinellir y rhyngrwyd gan ffiniau gwleidyddol a chyfreithiol is-fyd-eang a beth yw'r "dewisiadau amgenach?"

Croesewir cynigion gan bawb sy'n astudio am radd israddedig neu uwchraddedig mewn unrhyw brifysgol ac mewn unrhyw bwnc; neu bawb a raddiodd yn 2014, ac mae'n rhaid i'r gwaith fod heb gael ei gyhoeddi eisoes.

Dydd Gwener 1 Awst yw dyddiad cau'r gystadleuaeth.

Mae manylion y gystadleuaeth ar gael ar y we yn www.aber.ac.uk/en/internet-jurisdiction/competition/

Rhagor o wybodaeth: Dr Uta Kohl,
Adran y Gyfraith a Throseddeg,
01970 622738 uuk@aber.ac.uk

CHWYDDWYDR

# Sbotolau ar…

## y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni

Mae tîm y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni yn cadw mewn cysylltiad ag alumni Aberystwyth ym mhedwar ban byd. Er mwyn clywed rhagor am eu gwaith a'r hyn sydd ar y gorwel iddyn nhw, cawsom sgwrs â'r Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni, Louise Jagger.

**Beth sy'n digwydd yn y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni?**

Mae'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni yn gwneud yn siŵr fod y Brifysgol yn rheoli'n effeithiol ei chyfathrebu ac ymygysylltu â'n cymuned o 50,000 o alumni ledled y byd.

Mae'r alumni yn ein cefnogi mewn sawl ffordd heblaw codi arian a dyngarwch, gan gynnwys recriwtio (e.e. mynychu ffeiriau, sicrhau rhaglenni cyfnewid a hwyluso cyflwyniadau), cyflogadwyedd (e.e. rhaglen e-fentora a lleoliadau gwaith), a chyda'u gwybodaeth, eu dylanwad a'u rhwydweithiau o gwmpas y byd ar bob agwedd sy'n ymwneud â'r Brifysgol ein gweithgareddau a'n cynlluniau.

Mae swyddogaeth codi arian yn perthyn i'r adran yn ogystal, sef cydgysylltu ag alumni ac unigolion, ymddiriedolaethau a sefydliadau a phartneriaethau corfforaethol eraill i ysbrydoli a datblygu eu cymorth dyngarol ar sawl lefel amrywiol.

**Sut y mae'r Brifysgol yn cyfathrebu ag alumni?**

Rydym yn cyfathrebu'n uniongyrchol ag alumni trwy'r cylchgrawn blynyddol i alumni, PROM, a thrwy e-gylchlythyron misol a digwyddiadau.

Mae'r alumni yn bartneriaid yn ein gweledigaeth a'n cenhadaeth, a byddwn yn ymgynghori â nhw ynghylch cynlluniau a phrosiectau, o fewn y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni a hefyd ar draws y brifysgol, er mwyn defnyddio eu gwybodaeth a gwneud y mwyaf o'u dylanwad.

Yr hyn sy'n fwyfwy gwir yw ein bod ni'n un o blith sawl prifysgol sy'n cyfathrebu ag alumni, gan fod gan nifer bellach sawl gradd. Rhaid inni sicrhau ein bod ni'n meithrin perthynas mewn modd sy'n dod â nhw yn agosach at Aberystwyth gan hefyd barchu eu hoffter a'u hymwneud â sefydliadau eraill.

Mae ein perthynas oes ag alumni wedi ysbrydoli alumni i adael symiau sylweddol o arian i ni yn eu hewyllysiau ar gyfer gwaddolion ac ysgoloriaethau.

**Beth sydd ar y gorwel i'r Swyddfa?**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sefydlwyd rhaglen o ddigwyddiadau ar gyfer alumni yn Llundain a Chaerdydd. Lansiwyd grwpiau alumni yn ddiweddar yn Efrog Newydd a Washington, a gobeithiwn lansio mwy ar draws y byd wrth inni dyfu'n gyflym o'n sylfaen ryngwladol bresennol o ryw 1,000.

Rydym yn dechrau ymuno yn y cynllunio ar gyfer dau ganmlwyddiant sydd i ddod – Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn 2017 a Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn 2019, a thrafod hefyd syniadau cychwynnol ar gyfer 150fed pen-blwydd y Brifysgol yn 2022.

Bydd y Swyddfa yn cydweithio ag alumni a chydweithwyr allweddol ar draws y Brifysgol i sefydlu strategaeth codi arian erbyn diwedd 2014 – bydd y prosiect 'Bywyd Newydd i'r Hen Goleg' yn un o brif agweddau'r strategaeth hon.

Mae'r Swyddfa hefyd yn cydweithio'n agos â Gareth Roberts, Cyfarwyddwr Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, ar ddatblygu cyfraniad alumni i'w gynlluniau ef, gan gynnwys codi arian.

**Beth yw'r camsyniadau cyffredin sydd gan bobl ynghylch y gwaith a wneir yn y Swyddfa?**

Efallai ein bod ni'n gallu gwneud y cyfan ein hunain!

Ni sy'n rhyngweithio ag alumni, ac yn trafod a gofalu am eu hymgysylltu a'u cefnogaeth gan sicrhau bod yr holl weithgarwch yn cydymffurfio ag arferion gorau a chyfraith elusennau.

Serch hynny, mae angen gweithio mewn partneriaeth â staff a myfyrwyr ar draws y Brifysgol i lunio cynlluniau a chyflwyniadau i alumni a chefnogwyr ar y cyd, a rheoli cysylltiadau parhaus.

Mae hyn yn sicrhau bod ein gwaith yn cael ei yrru a'i hysbysu gan anghenion y Brifysgol, ond mae'n hanfodol hefyd gan mai tîm bychan ydym o'i gymharu â'r cyfleoedd a'r lefelau rhyngweithio.

## Proffil – Louise Jagger



**Dywedwch rywfaint wrthym amdanoch**

Symudais i Aberystwyth yn 2011 ar ôl 25 mlynedd yn Llundain. Mae gennyf gysylltiadau teuluol yn yr ardal ac fe wnaethom ddewis symud yma dros unrhyw le arall yn y byd. Roedd y Brifysgol yn brif ffactor yn ein penderfyniad. Roedd yn gyfle gwych i ddilyn cwrs Meistr Gwleidyddiaeth Ryngwladol yma yn 2012/13 ac arbenigo yng Ngwleidyddiaeth Cymru. Rwy'n gwireddu breuddwyd wrth gyflawni fy swydd bresennol.

Mae gennyf brofiad gyrfa 25 mlynedd yn codi arian a datblygu. Rwy'n cael fy ngyrru gan angerdd cryf ar gyfer newid cymdeithasol a hawliau cyfartal i gyfleoedd drwy fynediad i addysg.

Yn fy amser hamdden byddaf yn mwynhau treulio amser gyda theulu a ffrindiau, dysgu Cymraeg, teithio a'r celfyddydau a materion cyfredol.

**Disgrifiwch ddiwrnod nodweddiadol yn y Swyddfa?**

Rwy'n hoffi'r ffaith nad oes byth diwrnod nodweddiadol…. ond mewn gwironedd, cymysgedd sydd yma o 'wyddoniaeth' marchnata perthynas (hynny yw, cynllunio, cyllidebu, rheoli ac ymgysylltu â rhanddeiliaid) a'r celfyddydau'(hynny yw, paru'n greadigol gyfleoedd â chefnogwyr, gofalu am alumni a chefnogwyr ac ymateb yn fanteisgar ac yn entrepreneuraidd i ddatblygiadau newydd.

**Pa elfen o'ch gwaith sy'n rhoi'r boddhad mwyaf i chi?**

Cyflwyno cefnogwr i'r gwaith sydd wedi ei noddi ganddo a dangos sut y gwnaeth wahaniaeth i fywyd unigolion neu weledigaeth sefydliad.

**Ac yn olaf, beth sy'n gywir, alumna, alumni, alumnus, neu alumnae?**

Fel arfer, bydd ein alumni di-Gymraeg yn cyfeirio atynt eu hunain fel 'Alums Aber' felly rwy'n credu y gallwn gytuno â'r term cwbl unigryw a hoffus hwn a pheidio â phoeni am y peth! I'r sawl sy'n chwilio am ddiffiniad, edrychwch ar Wicipedia - http://en.wikipedia.org/wiki/Alumnus

CHWYDDWYDR

# Y Gronfa Flynyddol – y galwyr a'r achosion

Cais yw'r Gronfa Flynyddol sy'n cael ei wneud bob blwyddyn i bob aelod o deulu Aberystwyth, yn alumni, staff, aelodau'r Cyngor a ffrindiau eraill y Brifysgol.

Ei nod yw darparu'r adnoddau i ariannu prosiectau a gwobrau cymharol syml a chyraeddadwy a fydd yn cyfoethogi ac ehangu bywyd a datblygiad addysgiadol myfyrwyr yn ystod eu hamser yma yn Aberystwyth.

Eleni mae'r Gronfa Flynyddol yn dathlu ei phen-blwydd yn bump oed. Mae bellach yn rhan amlwg o galendr y Brifysgol, ac mae'n parhau traddodiad hir o ddyngarwch yn Aberystwyth.



Harry Taylor (chwith) a Seb Balcombe

Bu Newyddion Aber yn siarad â dau fyfyriwr, Harry Taylor a Seb Balcombe, a fu'n gweithio fel 'galwyr' yn ystod sawl ymgyrch telethon ar gyfer y Gronfa Flynyddol yn ystod eu cyfnod yn Aberystwyth, gan ofyn beth a'u cymhellodd i fod yn rhan o ymgyrch y Gronfa Flynyddol, a pha un o'r achosion teilwng oedd bwysicaf iddynt.

Bydd y ddau yn graddio eleni ar ôl bod yn astudio yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Mae Harry yn gefnogwr brwd o'r Kidderminster Harriers ac yn gyn-olygydd papur newydd myfyrwyr Aberystwyth, *Y Courier*, ac mae Seb yn ffotograffydd brwd ac yn mwynhau coginio.

Roedd y cyfle i ennill arian yn amlwg yn apelio wrth i'r ddau ymgeisio i fod yn rhan o ymgyrch y Gronfa Flynyddol, ond gwelodd Seb gyfle i ddatblygu ei CV ymhellach, a Harry i ddatblygu ei sgiliau ar y ffôn.

Esboniodd Harry sut y mae'r Gronfa Flynyddol yn gweithio: "Y telethon yw'r ymgyrchoedd sy'n digwydd ddwywaith y flwyddyn, ym mis Chwefror a mis Tachwedd, lle mae'r galwyr (tua 45 ohonyn nhw yn ystod yr ymgyrch) yn ffonio alumni i roi gwybod iddyn nhw beth sy'n digwydd yn Aberystwyth, siarad â nhw am eu cyfnod yma a gofyn am eu cefnogaeth ar gyfer prosiectau penodol a gynlluniwyd i fod o fantais uniongyrchol i fyfyrwyr Aber. Bydd y rhain yn amrywio rhwng ariannu Ysgoloriaeth PhD a Chronfa Galedi'r Myfyrywr."

"Mae'r uchafbwyntiau yn ei gwneud hi'n werth yr ymdrech, sicrhau rhoddion ar gyfer y prosiectau a chlywed am brofiadau'r alumni, clywed sut y mae'r dref a'r Brifysgol wedi newid, ond clywed hefyd sut y mae rhai pethau heb newid dim. Mae rhywbeth unigryw am Aber, ac yn dilyn fy mhrofiad i yma yn ystod y tair blynedd ddiwethaf a siarad ag alumni a rannodd yr un profiadau, mae'n bendant yn rhywle arbennig", ychwanegodd.

Sefydlwyd Cronfa Galedi'r Myfyrwyr i adlewyrchu ein cred na ddylai unrhyw fyfyriwr sydd wedi llwyddo i ddechrau astudio gael ei orfodi i adael y Brifysgol oherwydd caledi ariannol annisgwyl.

Dywedodd Seb fod "awyrgylch gwych" yn yr Ystafell Alwadau, gan ddisgrifio sut y byddai bwyta cacennau a fu'n rhan o gystadleuaeth gacennau'r Ystafell Alwadau yn codi ysbryd galwyr yn ystod sifft hir. Yr unig anfantais i'r gwaith, yn ôl Harry, oedd nifer y galwadau a fyddai'n cyrraedd peiriant ateb: "Rwy'n meddwl mai 30 ar ôl ei gilydd oedd y record!"

Gofynnwyd i Harry a Seb pa un o achosion y Gronfa Flynyddol oedd agosaf at eu calonnau. "Rwyf innau'n frwd iawn dros Gronfa Galedi'r Myfyrwyr," meddai Seb. "Rwy'n credu bod hyn yn rhywbeth unigryw i Aber sy'n brawf fod yr Alumni yn hael, gan mai'r Alumni yn unig sy'n ariannu'r Gronfa. Mae elfen bwysig iawn hefyd wrth wraidd y Gronfa, sef y dylai fod gan bawb yr hawl i addysg a dyna'r hyn yr wyf innau'n hoffi amdano."

Roedd Harry yn cytuno, gan ychwanegu: "Gall gradd newid cwrs eich bywyd am byth, ac mae'n ofnadwy meddwl y gallai problemau ariannol y tu hwnt i'ch rheolaeth neu broblemau lles megis iselder neu hiraeth effeithio ar hynny."

"`Does dim rhaid dweud bod pob un o'r prosiectau yn wych ac yn deilwng; mae pob un ohonyn nhw, heb os, yn newid bywyd. Mae'n rhoi boddhad mawr i helpu mewn ffordd fach drwy gynorthwyo myfyrwyr i oroesi cyfnod eu hastudiaethau drwy godi arian ar gyfer y cynllun Nawdd Nos arbennig, er enghraifft.

I ddarllen mwy am rai o'r achosion a gefnogir gan y Gronfa Flynyddol ewch i www.aber.ac.uk/cy/development/support/annfund/af1314/

Roedd rhedeg y Gwasanaeth Nawdd Nos y llynedd am 5 noson yr wythnos yn costio £1,053. Cyfrannodd Undeb y Myfyrwyr grant o £200 ar gyfer hyn – yr un peth ag ar gyfer unrhyw glwb neu gymdeithas arall. Daeth y gweddill o haelioni'r rhoddwyr.

ADNODDAU DYNOL

# Y Safon Iechyd Corfforaethol

Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn gweithio tuag at lefel Efydd y Safon Iechyd Corfforaethol. Dyma'r nod ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd a lles yn y gweithle.

Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor Gwasanaethau Staff a Myfyrwyr yw ein Hyrwyddwr Arweiniol ar gyfer ennill y wobr hon ac mae Grŵp Llywio Iechyd Corfforaethol hefyd wedi ei sefydlu i weithio ar y cynllun gweithredu.

Cynhaliwyd asesiad ffug y wobr ar 12 Mehefin er mwyn asesu ein hymagwedd tuag at weithgareddau a pholisïau sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi arferion gweithio da yn ogystal ag annog cyfranogiad mewn gweithgareddau iechyd a lles.

Mae Hyrwyddwr Iechyd y Brifysgol, Michele Presacane, a staff o'r adran Adnoddau Dynol wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y Brifysgol i dynnu sylw at y gweithgareddau a'r polisïau sy'n bodloni meini prawf y Safon.

Mae'r Safon yn edrych ar y materion iechyd penodol hyn: tybaco, iechyd ac adsefydlu galwedigaethol, iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol a sylweddau, anhwylderau cyhyrysgerbydol, maeth, a gweithgarwch corfforol.

Cynhelir yr asesiad ar gyfer y Wobr Efydd cyn hir a bydd yr aseswyr yn edrych ar ethos a diwylliant y Brifysgol a sut y mae iechyd a lles y staff yn cael eu hymgorffori yn ein prosesau. Byddant hefyd yn chwilio am dystiolaeth i ddangos bod y staff yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt, gan gynnwys y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol, a'u bod yn gwybod ble i fynd i gael y wybodaeth hon.

Os ydych yn aelod o staff sydd â chyfrifoldeb rheolwr llinell, dylech eisoes fod yn ymwybodol o sut a ble i atgyfeirio unigolion am gymorth ac arweiniad os oes angen hynny.

Os ydych yn ansicr, cysylltwch â'r Adran Adnoddau Dynol neu ewch i wefan yr Adran Adnoddau Dynol yn www.aber.ac.uk/cy/hr. Gallwch weld polisi Iechyd a Lles y Brifysgol yma: www.aber.ac.uk/en/hr/employment-information/wellbeing/

Mae rhagor o wybodaeth am faterion Iechyd a Lles yn www.aber.ac.uk/en/supporting-staff/work/healthanddisability/health-wellbeing/, ynghyd â gwybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau ledled y Brifysgol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon neu os hoffech rannu eich awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau iechyd a lles neu welliannau i dudalennau'r we, mae croeso i chi anfon e-bost at Michele Prescane yn mvp9@aber.ac.uk

# Yn gadarn o blaid pobl anabl

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod y Brifysgol, yn sgil asesiad manwl a chynhwysfawr gan Ganolfan Gwaith Cymru, wedi cadw symbol y Tic Dwbl, a hynny am yr unfed flwyddyn ar ddeg yn olynol.

Rhoddir y wobr am ein hymroddiad i anghenion ymgeiswyr sy'n datgan anabledd wrth wneud cais am swydd yn y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gefnogi ymgeiswyr ag anabledd mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys: cyfweld yr holl ymgeiswyr ag anabledd sy'n bodloni meini prawf hanfodol y swydd a'u hystyried ar sail eu galluoedd; cefnogi staff sy'n dod yn anabl a hwythau'n gweithio i'r Brifysgol; codi ymwybyddiaeth ymhlith yr holl staff am faterion anabledd, a thrwy'r broses Datblygu Staff ac Adolygu Perfformiad (DSAP), rhoi cyfle i staff ag anabledd i drafod unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt.

## Rhestr fer Gwobrau Rheoli Pobl CIPD

Mae'r Brifysgol wedi cyrraedd rhestr fer gwobr y Cynllun Cysylltiadau â'r Gweithwyr Gorau yng Ngwobrau Rheoli Pobl CIPD eleni, am y broses beilot 'paru a gosod swyddi' a gyflwynwyd wrth ad-drefnu swyddogaethau gweinyddol yr Athrofeydd. Aberystwyth yw'r unig Brifysgol ar restr fer y gwobrau.

Cynhelir y seremoni wobrwyo ar 30 Medi yng Ngwesty Grosvenor yn Park Lane yn Llundain.

## Pwyntiau Cyfrannu a Chynyddrannau Cyflym (AICP)

Yn sgil cyhoeddi amserlen lawn y broses AICP yn rhifyn mis Ebrill Newyddion Aber, dyma'ch atgoffa mai 28 Tachwedd 2014 yw'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.

# Y broses paru a gosod swyddi

Mae'r broses paru a gosod swyddi, a drafodwyd ac y cytunwyd arni â'r undebau llafur, bellach wedi'i chyflwyno ar ôl cynnal cynllun peilot llwyddiannus ynglŷn ag ailstrwythuro darpariaeth weinyddol a chlerigol yr Athrofeydd.

Nod y broses, sydd i'w gweld yn www.aber.ac.uk/en/hr/employment-information/match-and-slot/, yw lleihau'r effaith bosib ar staff sy'n rhan o unrhyw broses ailstrwythuro; sicrhau bod staff yn cael swyddi sy'n eu galluogi i ddefnyddio eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u galluoedd; a lleihau'r perygl y bydd staff yn colli eu swyddi.

ADNODDAU DYNOL

# Datblygu Staff ac Adolygu Perfformiad (DSAP) 2014

Atgoffir y staff y dylid cynnal cyfarfodydd DSAP erbyn 30 Medi 2014.

Diben y broses Datblygu Staff ac Adolygu Perfformiad (DSAP) yw ein hadolygu ein hunain a'n gwaith. Mae pob aelod o staff a gyflogir gan y Brifysgol yn cymryd rhan. Mae DSAP yn ymwneud â chydnabod ein llwyddiannau yn ystod y flwyddyn a aeth heibio a meithrin dealltwriaeth ar y cyd ynghylch yr hyn a ddisgwylir gennym yn y flwyddyn sydd i ddod. Y bwriad yw nodi'r hyn a wnaethom yn dda a'r newidiadau y gallwn eu gwneud a'r cymorth sydd ei angen arnom i wella'n gwaith. Mae'n ymwneud â sut y mae ein gwaith yn cyfrannu at lwyddiant y Brifysgol. Yn anad dim, mae'n gyfle i neilltuo amser i siarad am ein gwaith, ein datblygiad proffesiynol a'n dyheadau gyrfaol ein hunain.

Ceir manylion a'r ddogfen Word i'w defnyddio i gofnodi canlyniadau'r cyfarfod yn www.aber.ac.uk/cy/sdpr/.

# UHR Cymru



Mae Sue Chambers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, wedi ei phenodi'n Gadeirydd ar Adnoddau Dynol Prifysgolion (UHR) (Cymru), ac yn aelod o Weithrediaeth UHR y DG. UHR yw'r sefydliad proffesiynol ar gyfer ymarferwyr Adnoddau Dynol ym mhrifysgolion y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon.

POBL ABER

# Penodiadau

### CYFARWYDDWR MOESEG A CHYDRADDOLDEB



Mae'r **Athro Kate Bullen** wedi ei phenodi'n Gyfarwyddwr Moeseg a Chydraddoldeb, y Cyfarwyddwr cyntaf o'i fath yn y Brifysgol. Bydd yr Athro Bullen yn gweithio ochr yn ochr â Gweithrediaeth y Brifysgol, yn gyfrifol am ddatblygu a sicrhau cyfeiriad strategol y Brifysgol o ran moeseg a chydraddoldeb a rhoi cyhoeddusrwydd iddo, a sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu monitro a'u cyflwyno'n llwyddiannus. Bydd llawer ohonoch yn gyfarwydd â'r Athro Bullen fel Cyfarwyddwr Athrofa'r Gwyddorau Dynol a chyn sefydlu'r Adran Seicoleg yma yn Aberystwyth yn 2008, roedd yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Abertawe. Bydd yn dechrau yn ei swydd newydd ar 1 Awst.

### IECHYD, DIOGELWCH A'R AMGYLCHEDD



Mae **Phil Maddison** wedi ei benodi'n Gyfarwyddwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd. Cyn ei benodi, roedd Phil yn Rheolwr dros dro Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd. Mae gan Phil dros 15 mlynedd o brofiad mewn rolau arwain cymhleth ac amrywiol ym maes Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd ar gontractau'r llywodraeth, ac ar draws y sectorau cyhoeddus â phreifat. Ymhlith cymwysterau niferus Phil mae'n Aelod Siartredig o'r Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol ac yn Ymarferydd Diogelwch Cofrestredig, ac mae hefyd yn aelod o'r Sefydliad Rhyngwladol Rheoli Risg a Diogelwch, a'r Sefydliad Rheolaeth Siartredig.

### IBERS



Mae'r **Athro Mike Gooding** wedi ei benodi'n Gyfarwyddwr newydd ar IBERS. Ar hyn o bryd mae'r Athro Gooding yn Athro Gwyddor Cnydau ac Agronomeg, ac yn Bennaeth yr Ysgol Amaethyddiaeth, Polisi a Datblygu ym Mhrifysgol Reading, lle mae hefyd yn Gyfarwyddwr yr Uned Ymchwil Cnydau ac yn Gyfarwyddwr Cwrs y radd BSc mewn Amaethyddiaeth. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn ymwneud â dwysáu amaethyddiaeth mewn modd cynaliadwy, ac yn benodol sut i wella'r modd y mae cnydau'n amsugno ac yn defnyddio maetholion er mwyn cynhyrchu mwy a gwella'r ansawdd mewn amgylcheddau sy'n newid. Bydd yn dechrau yn ei swydd newydd ar 1 Hydref 2014.



Penodwyd **Huw Watkins** yn Gyfarwyddwr Prosiect Campws Arloesi a Menter Aberystwyth yng Ngogerddan. Mae gan Huw dros 23 blynedd o brofiad mewn swyddi technegol a masnachol, yn isadrannau rheoledig a diwydiannol y diwydiant dŵr i ddechrau, ac yn fwy diweddar fel cyfarwyddwr ymgynghoriaeth gwasanaethau arloesi blaenllaw. Dros y degawd diwethaf bu'n canolbwyntio ar reoli arloesedd, a bu'n rhedeg nifer o raglenni a ariannwyd gan y llywodraeth ac yn cefnogi datblygiad busnesau twf uchel ledled Cymru. Mae ganddo radd mewn Rheolaeth Amgylcheddol ac mae'n aelod llawn o'r Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff.



Mae **John Davies** wedi dechrau yn ei swydd fel Rheolwr Busnes Llwyfan Ymchwil Ucheldir Pwllpeiran. Bydd John yn gyfrifol am sefydlu a rheoli'r ganolfan newydd, y mae'r BBSRC wedi buddsoddi £3.2 miliwn ynddi. Cafodd John ei addysg yn Ysgol Gyfun Penweddig, Coleg Amaethyddol Gelli Aur a Choleg Amaethyddol Cymru, ac ers deuddeng mlynedd ef yw Cyfarwyddwr Canolfan Bwyd Cymru, sy'n darparu cymorth technegol o'r radd flaenaf i'r Diwydiant Bwyd-Amaeth yng Nghymru.

# Penodiadau parhad

## SWYDDFA'R IS-GANGHELLOR



Penodwyd **Kim Dyer** i swydd Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor. Mae Kim yn ymuno â Swyddfa'r Is-Ganghellor o'r tîm Adnoddau Dynol lle bu'n gweithio fel Rheolwr Ansawdd a Chydymffurfio Adnoddau Dynol. Graddiodd Kim yn Aber (Saesneg ac Addysg), ac ymunodd â'r Tîm Adnoddau Dynol yn 2008. Ar hyn o bryd mae'n dilyn Modiwl Arweinyddiaeth Effeithiol y Brifysgol a Thystysgrif Uwch mewn Rheoli Adnoddau Dynol.

## CYMORTH I FYFYRWYR



Ymunodd **Angharad Jones** â thîm Canolfan Lles y Myfyrwyr ym mis Ionawr 2014 fel Nyrs yn y Brifysgol. Graddiodd ym Mhrifysgol Swydd Stafford a chwblhau cyrsiau ôl-gofrestru yn NEWI (Prifysgol Glyndŵr erbyn hyn) a Phrifysgol Casnewydd. Mae Angharad wedi gwneud amryw o swyddi nyrsio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a bydd yn cadw'i swydd bresennol fel Nyrs Cyswllt Addysg yn ogystal â'i swydd yn y Brifysgol.

## Y SWYDDFA RYNGWLADOL



**Katerina Stivasari-Jones** yw'r Swyddog Cydymffurfio newydd, sy'n sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion y Swyddfa Gartref ac yn diogelu statws Noddwr Ymddiriedaeth Uchel (HTS) y Brifysgol. Mae Katerina'n un o gyn-fyfyrwyr Aberystwyth a chanddi radd BScEcon mewn Gwleidyddiaeth Ewropeaidd a gradd MScEcon mewn Astudiaethau Diogelwch, a bu'n gweithio i Lywodraeth Cymru, yn y Swyddfa Academaidd, fel Tiwtor a Chymedrolwr Groeg yn yr Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes ac yn yr adran Denu a Derbyn Myfyrwyr cyn ymuno â'r Swyddfa Ryngwladol. Bydd yn derbyn gradd MBA ym mis Gorffennaf.



**Rosa Soto** yw'r Cynghorydd Myfyrwyr Rhyngwladol newydd. Bydd yn cynnig cymorth i fyfyrwyr rhyngwladol ar faterion yn ymwneud â'u fisa a mewnfudo ac yn hybu eu hymgysylltiad â'n Prifysgol. Ar ôl graddio ym Mhrifysgol Portsmouth, bu Rosa Soto yn gweithio ym mhencadlys Oxfam yn Rhydychen. Ymunodd â Phrifysgol Aberystwyth ddeng mlynedd yn ôl, a bu'n cynghori israddedigion ac uwchraddedigion yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ar bob agwedd ar eu cyrsiau.

# Ymddeoliadau

## ASTUDIAETHAU THEATR, FFILM A THELEDU



Ymunodd **Dr Daniel Chandler** â'r adran yn 2001 ar ôl dysgu yn yr Adran Addysg ers 1989. Lansiodd y radd israddedig lwyddiannus mewn Astudiaethau Cyfryngau a Chyfathrebu yn fuan wedyn ac mae wedi gwneud cyfraniad sylweddol i waith yr adran mewn sawl ffordd.



Mae **Richard Cheshire** yn gadael yr Adran ar ôl rhoi 34 blynedd o wasanaeth. Yn ystod y cyfnod hwnnw mae wedi gwneud cyfraniad mawr i ddatblygu ymarfer creadigol yn y Grŵp Drama, Theatr a Pherfformio ac wedi ysgwyddo gwaith gweinyddol mawr yn yr adran. Mae hefyd wedi cyfrannu mewn cynifer o ffyrdd i fywyd cymuned Aberystwyth.



Mae **Joan Mills** wedi gwneud cyfraniad mawr i waith yr adran dros nifer o flynyddoedd, ac yn arbennig felly ym meysydd y llais a pherfformio. Mae wedi gwneud gwaith arwyddocaol yng nghymuned ehangach Aberystwyth a bu'n bont hollbwysig rhwng y byd academaidd a'r byd ehangach.



Mae **Charmian Savill,** cymrawd dysgu mewn ymarfer theatr, wedi bod yn aelod o staff yn yr adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu (ar wahanol gyfnodau) ers 1977. Mae ei hegni a'i brwdfrydedd wedi ysbrydoli carfannau dirifedi o fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg a Saesneg ac mae wedi llwyddo i arwain MA newydd mewn Theatr Gymhwysol a ddilyswyd yn ddiweddar.



Mae **Nick Strong** yn gadael yr adran fel un o'r aelodau staff hiraf ei wasanaeth. Mae wedi chwarae rhan allweddol yn dysgu sgiliau technegol y theatr, a sain yn benodol, i genhedlaeth o fyfyrwyr yn ogystal â chynnig arweiniad egnïol ar ddenu a derbyn myfyrwyr yn yr adran am nifer o flynyddoedd.

Byddwn yn gweld eu heisiau i gyd a dymunwn yn dda iddynt yn y dyfodol.

## Uwch Gymrawd yr AAU

Dyfarnwyd statws Uwch Gymrawd yr Academi Addysg Uwch i Dr Debbie Nash o Athrofa Gwyddorau Biolegol Amgylcheddol a Gwledig.

Mae Debbie'n Uwch Diwtor a Darlithydd mewn Gwyddor Ceffylau ac Anifeiliaid ac mae'n un o ddwy fenyw yn unig yn y Brifysgol i dderbyn y Dyfarniad. Y gyntaf oedd Alison Pierse, Cydlynydd Celf a Dylunio Addysg Gydol Oes yn yr Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Mae'r AAU yn darparu fframwaith proffesiynol y gall darlithwyr addysg uwch ei ddefnyddio i sicrhau cydnabyddiaeth am ymarfer da, proffesiynoldeb a rhagoriaeth addysgu. Ceir nifer o lefelau cynyddol o gydnabyddiaeth y gellir eu cyflawni.

Mae statws Cymrawd gyfwerth â chyflawni statws TAR a chaiff y cwrs TAR yn PA ei achredu ar gyfer y statws hwn. Cyflawnir statws Uwch Gymrawd drwy wneud cais yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n dangos arweinyddiaeth, ac ysbrydoli a chefnogi eraill i ddatblygu eu haddysgu.

AMBIWLANS AWYR CYMRU
WALES AIR AMBULANCE

## Raffl Ambiwlans Awyr Cymru

Yng Ngholociwm diweddar Gwasanaethau Gwybodaeth a Llyfrgelloedd HEWIT/WHELF a gynhaliwyd yng Ngregynog, cododd aelodau o staff y Gwasanaethau Gwybodaeth £286 ar gyfer Ambiwlans Awyr Cymru, sef Elusen yr Is-Ganghellor ar gyfer y Flwyddyn, trwy gynnal raffl i ennill dwy wobr a roddwyd yn garedig gan Samsung.

Cynhelir y Colociwm, ar gyfer staff Llyfrgelloedd a TGCh sefydliadau AU yng Nghymru, bob pum mlynedd, ac Aberystwyth oedd yn trefnu'r digwyddiad eleni. Mae'r rhaglen a'r crynodebau i'w gweld ar www.gregynog-lis.org a bydd recordiadau o'r rhaglen ar gael ar y wefan yn hwyrach y mis hwn.

## Llyfrgellydd y Gyfraith y Flwyddyn 2014


Lillian Stevenson

Lillian Stevenson, Llyfrgellydd Pwnc ar gyfer Adran y Gyfraith a Throseddeg, Gwleidyddiaeth Ryngwladol a Rheolwr Gwasanaethau Academaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth, yw enillydd Gwobr Llyfrgellydd Cyfraith y Flwyddyn Wildy BIALL 2014 (Cymdeithas Llyfrgellwyr y Gyfraith ym Mhrydain ac Iwerddon).

Cyflwynwyd y wobr i Lillian yng Nghinio Blynyddol BIALL a gynhaliwyd yn y Neuadd Frenhinol yn Harrogate ar ddydd Gwener 13 Mehefin.

Dywedodd Jas Breslin, Llywydd BIALL; "Y Wobr hon yw ein cyfle ni i wobrwyo Llyfrgellydd y Gyfraith ragorol. Mae'r enillydd eleni yn llyfrgellydd cyfraith academaidd sydd wedi gwirfoddoli ar y ddau Bwyllgor BIALL ac ar y Cyngor. Mae hi wedi bod yn llysgennad rhagorol i BIALL ar sawl achlysur, a diolchwn iddi am y cyfraniad hwn tuag at ein sefydliad.

"Mae'r gwaith y mae Lillian wedi ei wneud er mwyn cynyddu gwybodaeth o adnoddau cyfraith Cymru yn haeddu sylw arbennig gan mai hi wnaeth gychwyn ar y gwaith, a chynhyrchu canllaw ymchwil Globalex i Gymru, gan olygu bod y system gyfreithiol Gymreig ac ymchwil cyfreithiol cyfreithiol i lyfrgellwyr ac ymchwilwyr o amgylch y byd yn fwy gweledol. Yn dilyn hyn cyhoedd erthygl ar System Gyfreithiol Cymru yn y cyhoeddiad *Legal Information Management*, llynedd. Mae ei gwaith yn y maes hwn yn golygu bod system gyfreithiol Cymru yn amlwg i aelodau BIALL ac ymchwilwyr ar draws y byd."


Yr Athro Sarah Prescott

## Penodiad newydd i Gadair Rendel Iaith a Llenyddiaeth Saesneg

Penodwyd yr Athro Sarah Prescott, Cyfarwyddwr yr Athrofa Llenyddiaeth, Ieithoedd a'r Celfyddydau Creadigol i Gadair Rendel mewn Iaith a Llenyddiaeth Saesneg.

Cyflwynwyd Cadair Rendel i'r Brifysgol yn 1914 er cof am y Barwn Stuart Rendel (1834-1913). Yn ddiwydiannwr, Aelod Seneddol a dyngarwr, chwaraeodd y Barwn Rendel ran amlwg wrth hyrwyddo buddiannau Cymru, yn enwedig mewn cysylltiad â Deddf Addysg Ganolradd Cymru 1889.

Roedd y Barwn Rendel yn Llywydd Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, o 1895 tan ei farwolaeth. Ym 1897 prynodd y tir yn Grogytha, Aberystwyth, ac fe'i cyflwynodd yn safle ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

## Codi Arian ar yr Wyddfa


Paul James

Llwyddodd Paul James, Swyddog Diogelwch yn y Brifysgol, i frwydro'i ffordd i gopa'r Wyddfa ar 5 Ebrill er mwyn codi arian i Sefydliad Prydeinig y Galon ac Elusen y Diffoddwyr Tân.

Ac yntau'n gwisgo gwisg lawn diffoddwr tân ac yn cludo offer anadlu, ac a hithau'n dywydd hynod ddiflas, cyrhaeddodd Paul, sy'n 57 mlwydd oed, i'r copa ac yn ôl mewn ychydig o dan 5.5 awr, a chodi dros £2,500.

Ymunodd Paul, Cynghorydd Sir Ceredigion dros ward Llanbadarn Fawr, â thîm o wasanaeth tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer y digwyddiad, yn rhinwedd ei swydd fel cynrychiolydd Cyngor Sir Ceredigion ar Awdurdod Tân y Canolbarth a'r Gorllewin.

DIGWYDDIADUR

# Trefn y Seremonïau am Graddio 2014

| Seremoni | Amser | Dydd | Adran |
|---|---|---|---|
| Seremoni 1 | 11am | Dydd Llun 14/7/2014 | Adran Addysg a Dysgu Gydol Oes<br>Adran Hanes a Hanes Cymru |
| Seremoni 2 | 3pm | Dydd Llun 14/7/2014 | Adran Mathemateg a Ffiseg<br>Adran Cyfrifiadureg |
| Seremoni 3 | 11am | Dydd Mawrth 15/7/2014 | Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol<br>Adran Ieithoedd Ewropeaidd |
| Seremoni 4 | 3pm | Dydd Mawrth 15/7/2014 | Ysgol Rheolaeth a Busnes |
| Seremoni 5 | 11am | Dydd Mercher 16/7/2014 | Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu<br>Adran y Gymraeg |
| Seremoni 6 | 3pm | Dydd Mercher 16/7/2014 | Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol<br>Yr Ysgol Gelf |
| Seremoni 7 | 11am | Dydd Iau 17/7/2014 | Sefyldiad Gwyddorau Bioloegol, Amgylcheddol a Gwledig<br>Adran y Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff |
| Seremoni 8 | 3pm | Dydd Iau 17/7/2014 | Sefyldiad Gwyddorau Bioloegol, Amgylcheddol a Gwledig<br>Adran Seicoleg |
| Seremoni 9 | 11am | Dydd Gwener 18/7/2014 | Adran Astudiaethau Gwybodaeth<br>Adran y Gyfraith a Throseddeg |
| Seremoni 10 | 3pm | Dydd Gwener 18/7/2014 | Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear |

ARDDANGOSFEYDD YR YSGOL GELF



Print bloc pren Siapaneaidd ar sidan, 19eg ganrif

## Di-Deitl Gan Dienw

**19 Mai - 12 Medi 2014**

*Curadu gweithiau 'cudd' o Gasgliad yr Ysgol Gelf. Arddangosfa wedi'i churadu gan fyfyrwyr yr Ysgol Gelf*

## Coedwig a Bryn, Fferm a Maes: Celf wedi'r Drin

**9 Mehefin - 1 Awst 2014**

*Printiau, darluniau ac arteffactau a ddaeth i law rhwng 1921 a 1936*

*O Gasgliad yr Ysgol Gelf*

Arddangosfa o waith a ddaeth i'r brifysgol drwy law'r curaduriaid Sidney Kyffin Greenslade a Dan Jones rhwng y ddau ryfel byd.

Yn aml mae themâu, cyfryngau ac arddull printiau a darluniau rhwng y ddau ryfel byd yn cael eu dehongli fel ymateb i effeithiau enbyd y Rhyfel Byd Cyntaf, yn adwaith yn erbyn moderniaeth ac yn ymdrech i fynd yn ôl at draddodiadau yr ystyrid eu bod yn hynafol a chysurlon. Bydd yr arddangosfa'n archwilio'r dybiaeth honno ac yn ei herio.

Yn cynnwys gwaith gan Enid Butcher, Paul Drury, F. L. Griggs, Kathleen Hale, Edward Bouverie Hoyton, William Larkins, Samuel Palmer, Louise Powell, Mabel Allington Royds, Graham Sutherland a Joseph Webb.



*'The Sluice Gate', ysgythriad, 1924, prynwyd oddi wrth The 21 Gallery, drwy garedigrwydd a hawlfraint Ystâd Graham Sutherland*



*'Re-enchantment 1', Reuben Knutson*

## Reuben Knutson: Arddangosfa PhD

**11 Awst – 12 Medi 2014**

*Delweddau Iwtopaidd o'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol yn nhirlun Cymru'r 1970au*

Mae'r arddangosfa hon yn archwilio breuddwydion iwtopaidd y gwrthddiwylliant a ymwreiddiodd yng Ngorllewin Cymru yn y 1970au. Drwy ffilmiau, ffotograffau, gwrthrychau a thestun, mae'n edrych ar y ffordd yr oedd modd bod yn agored i ffyrdd newydd o fyw drwy dorri cysylltiad â hanes (diweddar a hynafol), yn ogystal â chofleidio posibiliadau chwyldroadol hanes.

DIGWYDDIADUR

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU, ABERYSTWYTH

## Sister Act

**25 Gorffennaf – 30 Awst**

Mam bach, am sioe!! *Sister Act*, y sioe hwyliog i'r teulu i gyd, fydd cynhyrchiad haf 2014 Canolfan y Celfyddydau. Yn llawn caneuon wedi'u hysbrydoli gan *motown*, ffync, *soul* a disgo, mae'n siŵr o godi'r to yn Theatr y Werin a chodi pobl ar eu traed i ddawnsio! Felly dewch i fwynhau'r sioe gerdd nefolaidd hon – wedi'r cwbl, byddai'n bechod peidio!

## I Like This Place

**Oriel 1: 26 Gorffennaf – 20 Medi**



*Sand Horses gan Andrew Bayne*

Mae'r arddangosfa hon yn dwyn ynghyd weithiau celf sy'n adlewyrchu agwedd ar ein tref gefn gwlad ar lan y môr a Chymru, ac yn cynnwys cerflunwaith tywod, ffotograffau o lanfeydd, synau ffermydd gwynt a glo, portreadau o anifeiliaid a mwy. Ymhlith yr artistiaid mae Andrew Baynes, Chris Clunn, Robert Davies, Danny Markey, Jenny Mulcahy, Anna Noel, Jill O'Sullivan, Tim Skinner, Jenni Steele, Catrin Webster a Stephen West.

## MUSICFEST




*Gŵyl Gerddoriaeth ac Ysgol Haf Ryngwladol Aberystwyth*

**26 Gorffennaf – 2 Awst**

Ceir ym Musicfest gyfuniad bywiog o Ŵyl Gerddoriaeth ac Ysgol Haf.

Mae dros 40 o berfformiadau'n rhan o'r rhaglen, ac fe'u cynhelir gydol y dydd a gyda'r nos, yng Nghanolfan y Celfyddydau a'r cyffiniau ac yn y dref, gan gynnwys datganiadau amser cinio yn yr Hen Goleg.

Un o uchafbwyntiau 2014 yw'r 'Great Animal Orchestra', gwaith newydd i gerddorfa symffoni a gomisiynwyd ar y cyd gan Musicfest a Gŵyl Gerddoriaeth Ryngwladol Cheltenham. Cerddorfa Symffoni Ysgolion Llundain, a chanddi 100 o aelodau, fydd yn perfformio'r gwaith, sy'n cyfuno synau anifeiliaid gwyllt, pryfetach a morfilod wedi'u recordio gan Bernie Krause gyda sgôr wreiddiol gan Richard Blackford.

Byddwn hefyd yn croesawu yn ôl atom rai o ffefrynnau Musicfest, Tom Poster (piano), David Campbell (clarinet) ac Ensemble Siambr Musicfest.

Ac os oes plant yn y teulu, peidiwch â cholli'r Tidli Prom gyda Fferm Gerddorol Ddewinol Bert.

Law yn llaw â'r Ŵyl, bydd yr Ysgol Haf yn cynnig cyrsiau Clarinet, Ffidil, Soddgrwth, Llais Clasurol, Theatr Gerdd, Arwain, Cerddoriaeth Siambr, Seicoleg Ymarferol a Chyfansoddi ar gyfer Ffilm a Theledu.

Mae bwrsariaethau ar gael i bobl ifanc i ddod i'r Ysgol Haf, diolch i gymorth Cyfeillion Musicfest.


I gael gwybod mwy ewch i www.abermusicfest.org

YN DOD CYN HIR

## The Faulty Towers Dining Experience


**25 – 30 Medi**

Trefnwch fwrdd yn y bwyty doniolaf erioed! Mwynhewch bryd o fwyd tri chwrs o'r 70au yng nghwmni Basil, Sybil a Manuel – pwy a ŵyr beth all ddigwydd?




PERFFORMIADAU AWYR AGORED DROS YR HAF

Cynhelir tri pherfformiad arbennig yng Nghanolfan y Celfyddydau ym mis Awst, a hynny yn yr awyr agored yng Nghwrt y Capel (y llain o laswellt ger y ganolfan) – felly paratowch bicnic a blanced a dewch draw atom!




Ddydd Mercher 6 Awst bydd cwmni theatr poblogaidd Illyria yn dychwelyd i Aberystwyth i berfformio dwy sioe. Am 2pm byddant yn perfformio ROBIN HOOD, casgliad hwyliog o straeon lle gwelir yr holl hoff gymeriadau, digon o gyffro a chomedi wych. Mae'r sioe'n addas i bawb dros 5 mlwydd oed, a byddwch yn siŵr o chwerthin, a chrio ac ymuno yn y gweiddi yn ystod y gystadleuaeth saethyddiaeth! Yna, am 7.45pm y diwrnod hwnnw bydd y cwmni'n perfformio drama Shakespeare, MACBETH, ar lwyfan tebyg iawn i lwyfannau cwmnïau teithiol yr 17eg ganrif.




Ddeng niwrnod yn ddiweddarach, ddydd Sadwrn 16 Awst, bydd grŵp Syrcas Gyfoes Square Peg yn perfformio RIME, sioe syrcas newydd yn seiliedig ar waith Coleridge, The Rime of the Ancient Mariner. Cewch weld campau acrobatig cyffrous, canu ac adrodd straeon, wrth i gwmni Square Peg gyfuno'r syrcas â theatr a dawns, gan ddefnyddio campau acrobatig a thyrau dynol, polion Tsieineaidd, sidan a fflipiau a thriciau. Mae'n argoeli'n noson ryfeddol.